2.1 Cynyddu'r praesept i £68,322,021

- Bydd hyn yn cynyddu'r dreth gyngor 2.00% - mae hyn yn cyfateb i £240.12 y flwyddyn, cynnydd o £4.68 y flwyddyn, neu 9c yr wythnos am eiddo band D.
- Mae hyn yn gynydd o 2.47% oddi ar 2015/16

2.2 Nodi bod toriadau o £2.838 miliwn yn ofynnol ar gyfer 2016/17; mae'r rhain wedi'u pennu.

2.3 Nodi na fydd nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn gostwng yn 2016/17.

2.4 Nodi y bydd £1.398 miliwn o'r toriadau'n cael ei ailddyrannu i swyddi rheng flaen.

2.5 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:

- Y bydd y Dreth Gyngor yn cynyddu 2% yn 2016/17, a 2.5% yn 2017/18, 2018/19 a 2019/20.
- Y bydd grantiau plismona'n gostwng 1% ym mhob blwyddyn.
- Y bydd newidiadau yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr yn dod i rym yn 2016/17 y rhagwelir y byddant yn cael effaith sy'n cyfateb i ostyngiad pellach o 3% yn y grant.

3. Cyllideb Gryno 2016/17

	£ miliwn	
Cyllideb 2015/16	<u>139.836</u>	
Chwyddiant ac anghenion ychwanegol	4.079	+2.6%
Gofyniad cyllideb 2016/17	<u>143.915</u>	
Amcangyfrif o gyfanswm cyllid 2016/17		
Grantiau Llywodraeth (52% o'r cyllid)	72.745	-0.60%
Y Dreth Gyngor	£240.12	+2.00%
Wedi'i lluosio â'r sylfaen drethu	284533	+0.48%
Praesept (48% o'r cyllid)	68,322	+4.01%
Cyfanswm y cyllid sydd ar gael	<u>141.067</u>	+0.89%
Toriadau gofynnol	2.838	

4. Eitemau Statudol

4.1 Ansawdd Gwybodaeth

4.1.1 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (a5), mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid wneud sylw am addasrwydd y wybodaeth sydd i'w defnyddio'n sail i benderfyniadau cyllidebol. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigurau yn y gwahanol adroddiadau'n ganlyniad i weithdrefnau sy'n parhau i gael eu gweithredu'n unol â'r safonau proffesiynol uchaf. Caiff y systemau hyn eu harchwilio'n fewnol ac allanol, ac nid yw'r archwilwyr allanol erioed wedi rhoi adroddiad archwilio â barn amodol. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid, mae'r wybodaeth hon yn addas i'w diben.

4.1.2 Mae hefyd yn ofynnol o dan yr un Ddeddf fod y Prif Swyddog Cyllid yn gwneud sylw am ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn sydd i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid, bydd y gronfa gyffredinol yn parhau'n ddigonol i ddiwallu anghenion gweithredol yr Heddlu o ddydd i ddydd. Mae'r cronfeydd wedi'u hadolygu, a cheir rhagor o fanylion ym mharagraff 10.

5. Cefndir

5.1 Bydd toriadau o £24.101 miliwn wedi'u cyflawni dros gyfnod 4 blynedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010, ynghyd â blwyddyn ychwanegol yn 2015-16. Mae cyllid grant wedi gostwng 20.6% dros y cyfnod o bum mlynedd, ac mae cyfanswm yr incwm o'r praesept wedi cynyddu 19.2% dros yr un cyfnod; mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 16% mewn termau real yng nghyfanswm y gyllideb. Mae'r tabl isod yn dangos y toriadau a wnaed hyd yn hyn:

Blwyddyn	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	Cyfanswm
Toriadau a Wnaed	4.678 miliwn	6.016 miliwn	4.634 miliwn	4.325 miliwn	4.448 miliwn	24.101 miliwn

5.2 Mae'r Llywodraeth wedi cynnal dau adolygiad mawr yn ystod haf 2015 a fydd yn pennu lefel grantiau'r Llywodraeth am blismona ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Yn yr Adolygiad o Wariant, adolygwyd y dyraniadau cyllideb i holl Adrannau'r Llywodraeth gan gynnwys y cyfanswm sydd ar gael ar gyfer plismona. Adolygwyd Fformiwla Ariannu'r Heddlu gan y Swyddfa Gartref: mae'r fformiwla hon yn pennu'r ffordd y mae'r Swyddfa Gartref yn dosbarthu'r cyfanswm sydd ar gael ar gyfer plismona rhwng ardaloedd heddlu. Nid oedd canlyniad terfynol yr adolygiadau hyn yn hysbys nes cyhoeddi'r dyraniadau grant ar 17 Rhagfyr 2015. Oherwydd yr amserlen hon, roedd llawer o ansicrwydd ynghylch maint yr adnoddau a fyddai ar gael a'r toriadau a fyddai'n ofynnol yn ystod y broses gynllunio ar gyfer cyllidebau 2016-17. Mae rhagor o fanylion isod.

6. Y Cyd-destun Cynllunio

6.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a atodwyd yn egluro'r cyd-destun cynllunio. Mae'n cynnwys ffigurau'r blynyddoedd blaenorol, ynghyd ag amcanestyniadau ar gyfer incwm a gwariant refeniw, a chynlluniau ar gyfer cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.


- 6.2 Nid oedd unrhyw Ddyraniadau Cyllid dros dro wedi'u rhoi gan Lywodraeth ar gyfer 2016/17 ar adeg setliad 2015/16. Er hynny, roedd yn amlwg y byddai toriadau'n parhau yn ystod cyfnod y senedd nesaf o leiaf. Sefydlwyd proses yn ystod 2014/15 ar gyfer pennu a sicrhau arbedion ar gyfer y cyfnod rhwng 2015/16 a 2017/18 o dan reolaeth y Bwrdd Cynllunio Strategol, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl.
- 6.3 Mae oddeutu 50 o wahanol ffrydiau gwaith wedi'u hystyried hyd yma. Nodwyd y rhain ar sail gwaith presennol a hefyd drwy feincnodi gan gynnwys, er enghraifft, proffiliau Gwerth am Arian Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi. Gwnaed yr argymhellion terfynol ar 28 Medi 2015; mae trosolwg byr yn adran 8 o'r adroddiad hwn.
- 6.4 Yn ogystal â nodi'r arbedion sy'n ofynnol, dilynwyd y broses arferol ar gyfer pennu gofynion cyllideb ar gyfer y dyfodol ac mae esboniad manylach o hyn yn y CATC. Ystyriwyd y canlynol wrth ddatblygu'r CATC:
- Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, y Gofyniad Plismona Strategol a'r Cynllun Gweithredu 2016/17
 - Pwysau newydd a rhai sy'n codi
 - Y broses gynllunio strategol
 - Strategaethau eraill yr heddlu
 - Yr hinsawdd economaidd bresennol
 - Y sefyllfa ariannol bresennol
 - Amcangyfrifon o'r adnoddau sydd ar gael
 - Rhagolygon cyllideb ar gyfer y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau tâl
 - Y rhaglen gyfalaf, y Cod Materion Ariannol a'r effaith ar y gyllideb refeniw
 - Cronfeydd wrth gefn a gweddillau
 - Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
 - Cydweithio
- 6.5 Torrwyd cyfanswm o £4.448 miliwn o gyllideb 2015/16 o'i chymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roedd y gyllideb yn darparu ar gyfer trosglwyddiad net bach i'r cronfeydd wrth gefn. Er mwyn sicrhau bod modd gwneud arbedion yn y dyfodol, bydd angen tynnu'r gost sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y staff o'r Gronfa Rheoli Newid, fel yr oeddem wedi disgwyl.
- 6.6 Bob blwyddyn bydd Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r Heddlu, ei sefyllfa ariannol gyffredinol, ei broses gynllunio a'i arbedion blynyddol; mae rhagor o fanylion am hyn yn y CATC. Nodwyd bod yr Heddlu hyd yn hyn wedi gallu diogelu gwasanaethau rheng flaen a nifer ei swyddogion i'r graddau mwyaf posibl, a bod cyfran yr arbedion nad ydynt yn ymwneud â staff yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond ei bod yn fwyfwy anodd sicrhau hyn.

7. Dyraniadau Cyllid

- 7.1 Nid oedd unrhyw Ddyraniadau Cyllid dros dro wedi'u rhoi gan Lywodraeth ar gyfer 2016-17 yn setliad 2015-16. Roedd llawer o ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer y dyfodol pan gyflwynwyd Cyllideb 2015, er ei bod yn glir nad oedd y wlad ond hanner ffordd tuag at y nod o gydbwysu'r gyllideb flynyddol ar ddiwedd 2014-15 ac roedd yr holl bleidiau gwleidyddol

wedi datgan eu bod wedi ymrwymo i gydbwysu'r gyllideb flynyddol cyn yr etholiadau ym Mai 2015. Roedd rhagdybiaeth o doriad o 4% wedi'i chynnwys yn yr amcanestyniadau ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2016-17 a 2018-19. O ganlyniad i hyn, rhagwelwyd y byddai diffyg o £15.5 miliwn dros y cyfnod rhwng 2015-16 a 2018-19 a hwn oedd y targed ar gyfer arbedion a ddefnyddiwyd i ddibenion cynllunio yn ystod 2015-16.

- 7.2 Ar ôl yr etholiad ym mis Mai, cynhaliodd y Llywodraeth Adolygiad o Wariant yn ystod misoedd yr haf. Ymgynghorodd y Trysorlys ar doriadau rhwng 25% a 40% mewn termau real; mae'r rhain yn cyfateb o ostyngiad mewn arian parod rhwng 19% a 35% dros gyfnod o bedair blynedd. Yr arwyddion oedd y byddai'r toriadau'n agosach i 19% dros bedair blynedd. Mae hyn yn gyson â'r CATC a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015. Fodd bynnag, yr hyn sydd wedi newid yw bod y cyfnod o bedair blynedd bellach yn rhedeg rhwng 2016-17 a 2019-20 yn hytrach na rhwng 2015-16 a 2018-19. Mae hyn yn golygu blwyddyn ychwanegol o doriadau o'i gymharu â'r nod yr oedd y Canghellor wedi'i ddatgan o'r blaen o gydbwysu cyfrifon y wlad erbyn 2018-19 ac, ar sail y rhagdybiaethau yn CATC 2015, byddai hyn yn golygu gofyniad am doriadau ychwanegol o £3 miliwn.
- 7.3 Cyhoeddwyd y canlyniad i'r adolygiad o wariant yn Natganiad Hydref y Canghellor ar 25 Tachwedd 2015. Yn ei araith, cyfeiriodd y Canghellor at gyllid ar gyfer yr heddlu a dweud: *"now is not the time for further police cuts, now is the time to back our police and give them the tools to do the job."* Roedd hyn yn arwydd o newid cyfeiriad ac na fyddai'r toriadau mor fawr ag y nodwyd o'r blaen.
- 7.4 Cyhoeddwyd rhagor o fanylion yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw a oedd yn dangos bod cyfanswm y cyllid ar gyfer yr heddlu, gan gynnwys cyllid Gwrthderfysgaeth, wedi'i dorri 1.3% mewn termau real dros bedair blynedd. Mewn llythyr at Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiliaid, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog dros Blismona, "taking into account the scope that you have to raise local council tax, this means a flat real settlement for policing as a whole." Y ffordd orau o egluro hyn yw'r graff canlynol o Ddogfen Adolygiad o Wariant y Trysorlys sy'n dangos bod y gyfran o gyfanswm cyllid yr heddlu a ddyrennir yn gostwng dros y pedair blynedd nesaf.



7.5 Yn ystod yr haf, ymgynghorodd y Swyddfa Gartref hefyd ar y fformiwla sy'n dyrannu cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'r ardaloedd plismona. Nid oedd yr ymgynghoriad cyntaf ym mis Gorffennaf 2015 yn cynnwys unrhyw enghreifftiau o ddefnyddio'r fformiwla arfaethedig newydd. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ym Medi 2015 lle'r oedd y Gweinidog dros Blismona wedi darparu manylion o welliannau arfaethedig yn y fformiwla ariannu yr oedd y Swyddfa Gartref wedi ymgynghori arni yn ystod yr haf. Roedd y Gweinidog hefyd wedi darparu ychydig enghreifftiau o'r dyraniadau diwygiedig wedi'u seilio ar gyllidebau 2015-16. Yn y cynnig newydd roedd un ffactor wedi'i ddileu, sef y nifer cyfwerth â Band D, gan ei bod wedi'i ddangos nad oedd y ffactor hwn yn gweithio yn ôl y bwriad. Diwygiwyd pwysoliadau'r pedwar ffactor arall fel a ganlyn.

Newidyn	Pwysoliad gwreiddiol	Pwysoliad diwygiedig
Maint poblogaeth	24%	30%
Aelwydydd heb oedolion cyflogedig a phlant dibynnol	25%	31%
Dan Bwysau Mawr	25%	31%
Nifer cyfwerth â Band D	16%	0
Dwysedd y Barrau	10%	8%

7.6 Newidiwyd cyfran y cyllid a ddyrennir i Ogledd Cymru o 1.03% i 1.06%. Newid canran bach yw hwn ond, ar sail cyllid 2015-16, byddai wedi rhoi cyllid ychwanegol o £2 miliwn. Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod y Swyddfa Gartref wedi defnyddio'r ystadegau anghywir yn ei henghreffittiau. O ganlyniad i hyn, cafwyd datganiad gan y Gweinidog dros Blismona fod y broses i'w hatal ac y bydd y dyraniadau ar gyfer 2016-17 yn cael eu gwneud mewn ffordd debyg i'r blynyddoedd diweddar. Byddai hyn yn golygu toriad o'r un ganran ar gyfer pob un o'r heddluoedd. Rhagwelir y bydd gwaith ac ymgynghori pellach ar y cynigion ar gyfer y fformiwla ariannol. Mae hyn yn golygu y bydd yr ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid i Heddlu Gogledd Cymru yn parhau nes cael penderfyniad terfynol ar y fformiwla ariannu ddiwygiedig. Bydd y cynnig yn cynnwys cynigion pontio ar sut i symud o'r dyraniad presennol at yr un diwygiedig. Hon yw'r risg fwyaf i'r gyllideb ar hyn o bryd; pe byddai'r fformiwla bresennol yn cael ei gorfodi, byddai'n golygu gostyngiad o £10.5 miliwn yn y grant cyllid gwaelodol a delir ar hyn o bryd.

7.7 Cyhoeddwyd y canlyniadau i'r ymgynghoriadau uchod a manylion eraill gan y Swyddfa Gartref ar 18 Rhagfyr 2015. Y prif benawdau oedd:

- Gostyngiad ar gyfradd safonol o 0.6% ar gyfer yr holl ardaloedd plismona. Mae hyn yn golygu gostyngiad o £0.417 miliwn yn y grant i Ogledd Cymru. Fodd bynnag, rhaid ystyried hefyd y costau ychwanegol o £2.2 miliwn am Yswiriant Gwladol yn 2016-17 (o ganlyniad i newidiadau yn y pensiwn gwladol a gyhoeddwyd o'r blaen gan y Llywodraeth) sy'n golygu toriad yn y gyllideb.
- Nodwyd yn y datganiad fod adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu ar gyfer mesurau gwrthderfysgaeth a bod Cronfa Gweddnewid o £76 miliwn wedi'i sefydlu i ariannu arfau tanio, ymysg pethau eraill. Ceir rhagor o fanylion am y rhain yn yr wythnosau i ddod.
- Mae'r 'brig-dorri' cyffredinol wedi cynyddu o £160 miliwn i £218 miliwn, ond mae bellach yn cynnwys £80 miliwn tuag at yr uwchraddio cenedlaethol ar system gyfathrebu'r heddlu.
- Ni roddwyd manylion y Grant Cyfalaf ond mae'r cyfanswm wedi'i leihau 40%. Os caiff hyn ei drosglwyddo, ac mae hyn yn debygol, byddai'n golygu gostyngiad o £0.360 miliwn yn y grant cyfalaf i Ogledd Cymru.
- Mae heddluoedd Lloegr yn parhau i dderbyn cyllid etifeddol o'r dreth gyngor ac mae hyn wedi cynyddu bellach o £503 miliwn i £514 miliwn.

- Roedd y wybodaeth a ddarparwyd am gyllid mewn blynyddoedd i ddod yn fach iawn, ac nid oedd dim manylion am ddyraniadau canolog na'r effaith o unrhyw newid yn y fformiwla ariannu, felly ychydig iawn o sicrwydd sydd gennym ynghylch y rhagdybiaethau am grantiau yn y blynyddoedd i ddod.

7.8 Ar sail y cyfansymiau a ddarparwyd yn y datganiad a gafwyd eleni, amcangyfrifwyd y bydd toriad pellach o 1% mewn grantiau ym mhob un o'r tair blynedd nesaf. Mae hyn yn llai na'r disgwyl ond yn ostyngiad yng nghyllid llywodraeth er hynny, gan fod y Llywodraeth wedi rhagdybio y bydd y dreth gyngor yn cael ei chynyddu'n lleol i wireddu'r addewid i beidio â gostwng y cyllid i'r heddlu yn gyffredinol.

7.9 Bydd y canlyniad i gam nesaf y fformiwla ariannu'n dod yn fwy clir yn ystod y flwyddyn nesaf. Hon yw'r risg fwyaf i gyllid ond hon hefyd yw'r wybodaeth sydd ei hangen i gael gwell dealltwriaeth o'r adnoddau a fydd ar gael ar gyfer plismona yng Ngogledd Cymru yn y tymor canolig.

8. Cyllideb 2016/17 i 2019/20

8.1 Mae crynodeb yn Atodiad A o Ragolwg y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2016/17 a blynyddoedd wedyn.

8.2 Mae rhai o'r rhagdybiaethau ar gyfer blynyddoedd i ddod wedi cael eu diweddarau fel y nodwyd uchod. Y prif ragdybiaethau yw:

- Chwyddiant blynyddol o 1% mewn cyflogau o fis Medi bob blwyddyn (dim newid)
- Chwyddiant cyffredinol o 1% ar gyfer 2016/17 a 2% ar ôl hynny
- Chwyddiant penodol wedi'i gymhwyso lle'r oedd yn hysbys
- Cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor yn 2016/17 (3.5% yn wreiddiol); a 2.5% ar ôl hynny
- Gostyngiad o 0.6% yn y grant ar gyfer 2016/17; 1% ar ôl hynny
- Bydd newidiadau mewn taliadau Yswiriant Gwladol yn 2016/17 yn ychwanegu £2.2 miliwn at y bil cyflogau, a hynny'n cyfateb i doriad ychwanegol o 3%

8.3 Effaith y rhagdybiaethau hyn yw:

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cynnydd o ganlyniad i chwyddiant	£4.078 miliwn (2.60%)	£2.232 miliwn (2.04%)	£2.580 miliwn (1.60%)	£2.375 miliwn (1.45%)
Gostyngiad yn y Grant	£0.417 miliwn (-0.6%)	£0.728 miliwn (-1.0%)	£0.720 miliwn (-1.0%)	£0.713 miliwn (-1.0%)
Llai: cyllid ychwanegol o gynnydd yn y Dreth Gyngor	(£1.657 miliwn) (2.0%)	(£1.883 miliwn) (2.5%)	(£1.935 miliwn) (2.5%)	(£1.989 miliwn) (2.5%)
Toriadau gofynnol	£2.838 miliwn	£2.077 miliwn	£1.365 miliwn	£1.099 miliwn

8.4 Canolbwyntiwyd ar doriadau'n bennaf yn ystod y pum mlynedd diwethaf a thorwyd cyfanswm o £24.1 miliwn o'r gyllideb. Fodd bynnag, er mwyn delio â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, bydd angen adnoddau ychwanegol mewn meysydd gwaith penodol. Gellir delio â'r rhan fwyaf

o'r galw hwn drwy newid blaenoriaethau o fewn Gwasanaethau. Fodd bynnag, mae rhai gofynion yn codi sy'n galw am staff ychwanegol, ac mae'r rhain wedi'u hariannu o'r toriadau a nodwyd. Mae'r ffigur am chwyddiant uchod yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol o £1.072 miliwn yn yr Uned Amddiffyn Pobl Agored i Niwed. Mae'r buddsoddiad hwn ar ffurf 19 o Swyddogion a 5 aelod staff (gellir newid y cymysgedd terfynol) ar gyfer atal, darganfod ac ymchwilio i achosion o gamfanteisio ar bobl agored i niwed. Mae hyn wedi'i ddynodi'n flaenoriaeth genedlaethol yn ogystal ag un lleol, ac mae'n cynnwys camfanteisio ar-lein. Mae angen buddsoddiad o £0.068 miliwn yn y broses cofnodi troseddau i gwrdd â gofynion cenedlaethol yn ogystal â buddsoddiad o £0.233 miliwn i gwblhau nifer o brosiectau ym maes TG ac Ystadau sydd i'w cyflawni dros y blynyddoedd nesaf.

- 8.5 Mae'r Bwrdd Cynllunio Strategol wedi pennu a chytuno ar doriadau o £2.838 miliwn ar gyfer 2016/17 ym mhob un o feysydd yr heddlu. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

Toriadau i'w gwneud yn 2016/17	
Adolygiad o Wasanaethau Busnes	£0.237 miliwn
Adolygiad o Wasanaethau Corfforaethol	£0.326 miliwn
Dyfodol Gweithrediadau GPLI	£0.114 miliwn
Gwasanaethau Cymorth Gwyddonol	£0.270 miliwn
Rhaglen Dyfodol Cyfathrebiadau	£0.180 miliwn
Ystadau	£0.266 miliwn
Cerbydau a chludiant	£0.075 miliwn
Dadansoddwyr	£0.027 miliwn
Goramser	£0.150 miliwn
Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol	£0.099 miliwn
Arlwyo	£0.050 miliwn
Adolygiad o Reoli Gwasanaethau Cymorth	£0.215 miliwn
Gwasanaethau Troseddu	£0.147 miliwn
Caffael	£0.015 miliwn
Cynhyrchu Incwm	£0.200 miliwn
Trwyddedu Arfau Tanio	£0.203 miliwn
Atafaelu Eiddo	£0.012 miliwn
Arbedion Penodol mewn Gwasanaethau	£0.345 miliwn
Cyfanswm y toriadau	£2.838 miliwn

- 8.6 Mae hyn yn gadael arbedion o £4.541 miliwn i'w gwneud yn y cyfnod rhwng 2017/18 a 2019/20. Mae'r cynlluniau ar gyfer yr arbedion ychwanegol hyn ar wahanol gamau yn eu datblygiad. Caiff y cynlluniau hyn eu datblygu a'u hadolygu ymhellach yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd y broses i bennu arbedion effeithlonrwydd pellach yn parhau:

	2017/18 i 2019/20
Adolygiad o Wasanaethau Busnes	£0.726 miliwn
Adolygiad o Wasanaethau Corfforaethol	£0.026 miliwn
Dyfodol Gweithrediadau GPLI	£0.081 miliwn
Dyfodol Gweithrediadau SCCH	£1.037 miliwn
Rhaglen Dyfodol Cyfathrebiadau	£0.096 miliwn
Ystadau	£0.318 miliwn
Cerbydau a chludiant	£0.228 miliwn

Contractau TG	£0.762 miliwn
Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu	£0.196 miliwn
Cydweithio	£0.200 miliwn
Caffael	£0.100 miliwn
Adolygu'r Gyllideb	£0.271 miliwn
PFI	£0.500 miliwn
Cyfanswm	£4.541 miliwn

9.0 Risgiau

9.1 Mae manylion y risgiau i'r gyllideb yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn y CATC. Mae crynodeb o'r prif risgiau isod; mae rhai ohonynt wedi'u nodi eisoes yn yr adroddiad hwn:

- Ansicrwydd ynghylch ariannu, gan gynnwys brig-dorri, a darparu manylion yn hwyr yn y cylch cynllunio
- Gall newidiadau yn y fformiwla ariannu yn y dyfodol fod yn niweidiol i Ogledd Cymru; tynnu'n ôl y grant cyllid gwaelodol – hon fydd y risg fwyaf dros y 12 mis nesaf
- Gofynion cenedlaethol a lleol sy'n codi
- Cyflawni'r cynlluniau arbed arian presennol
- Pennu cynlluniau arbed arian ar gyfer y dyfodol
- Gwaethygu'r sefyllfa economaidd genedlaethol yn galw am orfodi toriadau ychwanegol
- Cynnydd mewn costau tâl (gan gynnwys cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol) – costau tâl yw tua 80% o'r gyllideb net.

10. Cadernid a Chronfeydd Wrth Gefn

10.1 Mae'r Comisiynydd o dan ddyletswydd i sicrhau ei fod yn dal digon o arian wrth gefn i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau sy'n ymwneud ag ariannu a rhagfynegi a nodwyd uchod, mae angen i'r Comisiynydd ddarparu ar gyfer risg gwariant (gwariant sy'n fwy na'r gyllideb), a digwyddiadau mawr drud, trychinebau naturiol a digwyddiadau eraill na ellir eu rhag-weld. Mae elfen o'r risg hon wedi'i rheoli drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau hapddigwyddiadau. Mae'r rhain yn cael eu lleihau ac mae mwy o'r risg honno'n cael ei drosglwyddo i'r Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau.

9.2 Ar hyn o bryd mae £4.189 miliwn yn y Gronfa Gyffredinol - 3% o'r amcangyfrif o gyllideb net 2016-17. Credir ei bod yn ddoeth dal rhwng 3% a 5% o'r gyllideb net. Adolygwyd y cronfeydd wrth gefn yn ystod y broses pennu cyllideb y llynedd a gan fod Cronfa Digwyddiadau Mawr ar wahân bellach, penderfynwyd lleihau'r Gronfa Gyffredinol i £4.189 miliwn, sef 3% o'r gyllideb net. Cyn hynny, roedd swm yn y Gronfa Gyffredinol ar gyfer Digwyddiadau Mawr, os oedd ei angen.

9.4 Bydd y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r setliadau refeniw terfynol, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun presennol ar gyfer y ffordd orau o ddefnyddio'r cronfeydd a glustnodwyd i gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau a lliniaru'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Lle nad yw'r defnydd o'r Gronfa'n hysbys (yn achos y Gronfa Digwyddiadau Mawr, er enghraifft) nid yw newidiadau wedi'u dangos. Bydd y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Cronfeydd defnydd-iadwy ar:	31 Mawrth 2015 £ miliwn	31 Mawrth 2016 £ miliwn	31 Mawrth 2017 £ miliwn	31 Mawrth 2018 £ miliwn	31 Mawrth 2019 £ miliwn	
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	4.641	3.341	-	-	-	I'w defnyddio ar gyfer cyfalaf yn unig
Cronfa Gyffredinol	4.189	4.189	4.189	4.189	4.189	Wedi'i gosod ar 3% o'r gyllideb net o 2015/16
Cronfeydd a Glustnodwyd	32.235	28.715	18.449	14.775	13.512	Manylion isod
Cyfanswm y Cronfeydd Defnydd-iadwy	41.065	36.245	22.638	18.964	17.701	

Mae dadansoddiad isod o'r amcangyfrif o'r Cronfeydd a Glustnodwyd ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae rhagor o fanylion yn y CATC.

Disgrifiad	31 Mawrth 2015 £ miliwn	31 Mawrth 2016 £ miliwn	31 Mawrth 2017 £ miliwn	31 Mawrth 2018 £ miliwn	31 Mawrth 2019 £ miliwn
Buddsoddi Cyfalaf	14.845	12.557	3.373	0.885	0.885
Digwyddiadau Mawr	2.235	2.235	2.235	2.235	2.235
Cronfa Pensiwn Afiechyd	0.697	0.697	0.697	0.697	0.697
Cronfa Yswiriant	1.259	1.259	1.259	1.259	1.259
Cronfa PFI	3.397	3.692	3.914	4.032	4.073
Cronfa Profianwyr	4.840	4.840	4.140	3.440	2.740
Diogelu a Chynnal Ystadau	2.000	1.500	1.000	0.500	0.000
Cost Newid	1.659	0.759	0.759	0.759	0.759
Cronfa Bartneriaeth	0.685	0.581	0.477	0.373	0.269
Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd	0.265	0.265	0.265	0.265	0.265
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau gan gynnwys Cyllidebau Cyfreithiol a Chyfranogol	0.353	0.330	0.330	0.330	0.330
Cyfanswm	32.235	28.715	18.449	14.775	13.512

11. Cyfalaf

- 11.1 Mae nifer o brosiectau yn y Rhaglen Gyfalaf sy'n dod i ddiwedd eu camau cynllunio a cheisio caniatâd. Y rhain yw'r cyfleuster pencadlys a dalfeydd a'r orsaf heddlu yng nghanol tref Wrecsam, yr orsaf heddlu newydd yn Llandudno, a'r datblygiadau ar gyfer amnewid technoleg ystafell reoli a data symudol. Mae'r gwariant ar y prosiectau hyn wedi'i ailbroffilio:

ysgwyddir y rhan fwyaf o'r gwariant ar ôl dechrau'r gwaith, ond mae angen amser ac adnoddau i roi prosiectau o'r maint hwn ar waith.

2.1 Yn ogystal â hyn, mae prosiectau ystadau llai i'w cwblhau a phrosiectau i uwchraddio systemau Busnes a'r Rhaglen Amnewid Cerbydau flynyddol.

2.2 Yr unig gynlluniau ar ôl 2017-18 sydd wedi'u pennu ar hyn o bryd yw'r Rhaglenni ar gyfer Amnewid Cerbydau a TG. Cynhelir Adolygiad o Ystadau yn 2016-17 ac adolygir y Rhaglen Gyfalaf yn sgîl hynny ac ar ôl cwblhau'r rhaglenni gwaith mawr dros y ddwy flynedd nesaf.

Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf 2015/16 i 2019/20

Gwariant	£ miliwn
Ystadau	21.445
Cerbydau a Chyfarpar	8.602
Technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiaduron	9.577
Cyfanswm Gwariant	39.624
Cyllid	
Grantiau	3.065
Cyfraniad Refeniw	3.674
Cronfeydd Wrth Gefn	13.960
Derbyniadau Cyfalaf	7.549
Benthyca	4.570
Cyfanswm Cyllid	39.624

12. Ystyried yr Opsiynau

12.1 Mae'r newidiadau mawr canlynol wedi'u gwneud rhwng y CATC blaenorol a'r un presennol:

Newid rhwng 2015/16 a 2016/17	Ionawr 2015	Ionawr 2016
Toriad yng ngrant y Llywodraeth	4%	0.6%
Cynnydd yn y dreth gyngor	3.5%	2%
Toriadau gofynnol yn 2016/17	£4.563 miliwn	£2.838 miliwn
Gostyngiad yn nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol	19	0

Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael. Nid oedd y toriadau o £4.563 miliwn a ragdybiwyd cynt ar gyfer 2016/17 yn ddigon i ateb y galwadau a oedd yn codi, a byddai hyn wedi golygu mai dim ond drwy adleoli swyddogion rheng flaen y gellid ateb y galwadau hyn. Ym mis Rhagfyr, cyflwynodd yr Heddlu gynlluniau drafft wedi'u seilio ar doriad o 0.6% yn y grant ac arbedion o £2.8 miliwn, y bydd £1.4 miliwn ohonynt yn cael eu hailddyrrannu i gynnal gweithgareddau rheng flaen. Nid oedd y toriadau yn 2016/17 yn cynnwys lleihau nifer swyddi'r SCCH fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Wrth benderfynu ar y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor, rhaid dal y ddysgl yn wastad rhwng fforddiadwyedd a sicrhau bod cyllid digonol gan wasanaeth yr heddlu, ar sail yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y pum mlynedd diwethaf a rhagolygon ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Bydd toriadau ychwanegol yn sicr o effeithio ar niferoedd y swyddogion a staff rheng flaen. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cymryd y bydd cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor (a chynnydd mwy yn achos

heddluoedd lle mae treth gyngor is) yn ei chyfrifiadau ar gyfer 2016/17: mae'r cynnydd hwn o 2% yn rhoi'r gallu i Heddlu Gogledd Cymru i ddal y ddysgl yn wastad rhwng yr angen i ddiogelu'r gwasanaeth a fforddiadwyedd.

12.2 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau â'r Prif Gwnstabl, sydd wedi cadarnhau bod y cynnydd o 2% yn y dreth gyngor yn darparu cyllid digonol i gynnal gweithrediadau gwasanaeth yr heddlu yn 2016/17. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch lefel y grant a ddyrennir yn y dyfodol a newidiadau mewn pwysau ar weithrediadau, ni ellir gwneud sylw ar hyn o bryd ynghylch a yw'r rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer cynnydd yn y dyfodol yn gynaliadwy yn y tymor canolig.

12.3 O gynyddu'r Dreth Gyngor 2%, y prisiau ar gyfer pob band eiddo yw:

Band Treth	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Treth Gyngor £	160.08	186.76	213.44	240.12	293.48	346.84	400.20	480.24	560.28

12.4 Y praesept ar gyfer pob ardal bilio fydd:

Awdurdod Bilio	Sylfaen Drethu	Praesept
Cyngor Sir Ynys Môn	30,250.23	£7,263,685
Cyngor Gwynedd	49,932.37	£11,989,761
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	49,746.66	£11,945,168
Cyngor Sir Ddinbych	38,887.56	£9,337,681
Cyngor Sir y Fflint	62,759.00	£15,069,691
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	52,957.00	£12,716,035
Cyfanswm	284,532.82	£68,322,021

13. Goblygiadau

Amrywiaeth	Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar nifer cyflogeion yr Heddlu mewn blynyddoedd i ddod.
Ariannol	Pwrpas yr adroddiad hwn yw argymhell y Praesept a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2016/17, a thrafod y ffactorau a ystyriwyd wrth wneud yr argymhelliad hwn. Er bod yr argymhelliad ar gyfer un flwyddyn ariannol, mae'n bwysig ystyried y sefyllfa tymor canolig a thymor hir wrth ddod i benderfyniad. Mae adnoddau ariannol digonol yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddau ac i gwrdd â'n gofynion cyfreithiol.
Cyfreithiol	Mae'r adroddiad hwn, ynghyd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn darparu digon o wybodaeth i'r Panel Heddlu a Throseddau i wneud penderfyniad a all wrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol.
Risg	Mae'r adroddiad yn nodi ac yn gwerthuso'r risgiau sy'n deillio o'r argymhellion.
Yr Heddlu a Throseddau	Nid oes goblygiadau ar wahân o ran yr heddlu a throseddau.

Atodiad A, Cyllideb 2015-16 i 2019-20								
	Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb	Cyllideb
	Flynyddol		Flynyddol		Flynyddol		Flynyddol	Flynyddol
	2015-16		2016-17		2017-18		2018-19	2019-20

	Gwariant	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
1	Tâl Swyddog Heddlu	71,269	1,648	72,917	1,338	74,255	1,227	75,482	1,235	76,717
2	Tâl Staff yr Heddlu	40,249	651	40,900	807	41,707	649	42,356	654	43,010
3	Goramser Swyddog yr Heddlu	1,983	-150	1,833	0	1,833	0	1,833	0	1,833
4	Goramser Staff yr Heddlu	406	0	406	0	406	0	406	0	406
5	Lwfansau	2,023	-155	1,868	-50	1,818	-50	1,768	-50	1,718
6	Hyfforddiant	669	-3	666	13	679	14	693	14	707
7	Gweithwyr Eraill	671	7	678	13	691	14	705	14	719
8	Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	3,102	0	3,102	62	3,164	63	3,227	65	3,292
9	Costau Ynni	1,409	22	1,431	44	1,475	44	1,519	47	1,566
10	Costau Rhedeg Adeiladau	6,645	-380	6,265	134	6,399	137	6,536	140	6,676
11	Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau	857	5	862	17	879	18	897	18	915
12	Costau Rhedeg Cerbyd	2,167	-111	2,056	86	2,142	89	2,231	94	2,325
13	Lwfansau Car a Theithio	721	8	729	14	743	15	758	15	773
14	Uned Awyr	1,394	-99	1,295	0	1,295	0	1,295	0	1,295
15	Offer	688	-33	655	14	669	14	683	14	697
16	Dillad a Gwisgoedd	466	5	471	9	480	10	490	9	499
17	Argraffu a Deunydd Ysgrifennu	437	-3	434	9	443	9	452	10	462
18	TG a Chyfathrebu	9,215	-12	9,203	0	9,203	0	9,203	0	9,203
19	Cynhaliath	297	-11	286	6	292	6	298	7	305
20	Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	7,552	79	7,631	236	7,867	90	7,957	90	8,047
21	Fforensig	1,078	-123	955	21	976	22	998	23	1,021
22	Taliadau Dyledion a Chyfraniad at Gyfalaf	1,504	0	1,504	360	1,864	0	1,864	0	1,864
23	Arian At Raid ar gyfer Sefyllfaoedd Arbennig	400	0	400	0	400	0	400	0	400
24	Chwyddiant ac Arian At Raid Cyffredinol	400	0	400	0	400	0	400	0	400
25	Cronfa Diogelwch Cymunedol	1,166	0	1,166	0	1,166	0	1,166	0	1,166
	Gwariant Gros	156,768	1,345	158,113	3,133	161,246	2,371	163,617	2,399	166,016
	Incwm									
26	Secondiadau	-1,300	199	-1,101	0	-1,101	0	-1,101	0	-1,101
27	Llog ar Falansau	-271	0	-271	0	-271	0	-271	0	-271
28	Incwm	-5,397	-270	-5,667	0	-5,667	0	-5,667	0	-5,667
29	Grantiau Penodol	-10,051	-43	-10,094	52	-10,042	53	-9,989	52	-9,937
	Cyfanswm Incwm	-17,019	-114	-17,133	52	-17,081	53	-17,028	52	-16,976
30	Cronfa Wrth Gefn PFI	29	0	295	-73	222	-104	118	-77	41
31	Cronfa Wrth Gefn Ymwybyddiaeth Cyflymder	-208	0	-208	0	-208	0	-208	0	-208
32	Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Gwariant Net	139,836	1,231	141,067	3,112	144,179	2,320	146,499	2,374	148,873
33	Cyfanswm Grantiau	-73,162	417	-72,745	728	-72,017	720	-71,297	713	-70,584
34	Y Praesept	-66,674	-1,648	-68,322	-1,883	-70,205	-1,935	-72,140	-1,989	-74,129
	Cyllid	-139,836	-1,231	-141,067	-1,155	-142,222	-1,215	-143,437	-1,276	-144,713
	Balans Blynnyddol	0	0	0	1,957	1,957	1,105	1,105	1,098	1,098
	Cronnus			0		1,957		3,062		4,160

**Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl
Heddlu Gogledd Cymru**

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

2016-17 i 2019-20

Ionawr 2016

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu Cynllun Plismona 2015-2018 a'r Blaenoriaethau Plismona a gytunwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl â'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r Adnoddau sydd ar gael.

1.2 Nod

Nod y papur hwn yw nodi sut y mae'r gyllideb wedi cael ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer ei mantoli yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys perfformiad a sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni ar yr un pryd.

1.3 Cefndir

Roedd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth flaenorol (ACoW2010) yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 2011 a 2015; roedd yr Adolygiad yn cynnwys toriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Gorfodwyd toriadau grant am flwyddyn ychwanegol yn 2015-16 gan fod Adolygiad o Wariant y Llywodraeth newydd ar y gweill (AoW2015). Y gostyngiad ariannol gwreiddiol y cynlluniwyd ar ei gyfer yng Nghyllidebau'r Heddlu dros 4 blynedd (2011-12 i 2014-15) yr ACoW2010 oedd 12%, ond roedd y gostyngiad gwirioneddol mewn grantiau i ddiwedd 2015-16 yn 20.6%. Cytunodd Awdurdod yr Heddlu ar gynnydd o 4% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2011-12 a 2.5% ar gyfer 2012-13. Cynyddwyd Treth y Cyngor 4% yn 2013-14, a oedd yn cynnwys ailfuddsoddiad gwerthfawr o arbedion gwerth £1.8m mewn swyddi 51 Swyddog Heddlu newydd. Cynyddwyd Treth y Cyngor 2% yn 2014-15, ac yn dilyn toriad grant o 5.1% yn 2015-16, cynyddwyd Treth y Cyngor 3.44%. Mae'r tabl isod yn nodi'r toriadau a wnaed hyd yma i fantoli cyllideb yr Heddlu.

Blwyddyn	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	Cyfanswm
Toriadau a wnaed	4.678m	6.016m	4.634m	4.325m	4.448m	24.101m

1.4 Dros gyfnod o 5 mlynedd bydd gwerth £24.101m o doriadau wedi'u gwneud erbyn diwedd 2015-16, a bydd £1.8m wedi'i ailfuddsoddi mewn swyddi rheng-flaen. Mae arian grant wedi gostwng 20.6% yn ystod y pum mlynedd hwn, mae'r incwm a geir o'r praesept wedi cynyddu 19.2% dros yr un cyfnod, ac felly mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 16% mewn termau real yng nghyfanswm y gyllideb.

1.5 Cynhaliodd y Llywodraeth ddau adolygiad mawr dros yr haf 2015 a fyddai'n pennu lefel grantiau'r Llywodraeth ar gyfer plismona yn ystod y blynyddoedd i ddod. Fe wnaeth yr Adolygiad o Wariant (AoW2015) adolygu dyraniad y gyllideb i holl Adrannau'r Llywodraeth gan gynnwys y cyfanswm a oedd ar gael ar gyfer plismona. Cynhaliwyd adolygiad o Fformiwla Cyllido'r Heddlu gan y Swyddfa Gartref, mae'r fformiwla yn nodi sut y mae'r Swyddfa Gartref yn rhannu'r holl gyllid sydd ar gael i blismona rhwng yr ardaloedd plismona. Nid oedd canlyniad terfynol yr adolygiadau hyn yn hysbys tan 17 Rhagfyr 2015 pan gyhoeddwyd y dyraniadau grant. Oherwydd yr amserlen hon roedd cryn ansicrwydd o ran yr adnoddau posibl a oedd ar gael a'r

toriadau y byddai eu hangen yn ystod y broses o gynllunio cyllidebau 2016-17. Ceir mwy o fanylion isod.

2. Y Broses Gynllunio

- 2.1 Cafodd y cynlluniau arbedion ar gyfer y cyfnod 2011-12 i 2014-15 eu pennu yn wreiddiol yn ystod 2010-11 pan gyhoeddwyd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACoW2010) llym cyntaf. Daeth yn amlwg yn ystod y broses o bennu cyllideb ar gyfer 2014-15 y byddai'r toriadau yn parhau dros gyfnod y senedd newydd. Ar y cyfan, arbedion 2014-15 oedd arbedion olaf y gwaith a wnaed ac a weithredwyd yn dilyn ACoW2010. Cyflwynwyd proses i nodi a gwneud arbedion ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2017-18 yn ystod 2014-15 dan arweinyddiaeth y Bwrdd Cynllunio Strategol.
- 2.2 Caiff y llifau gwaith arbedion eu rheoli yn y lle cyntaf gan y Bwrdd Cynllunio Arbedion Ariannol (BCAA) a chyflwynir y cynigion terfynol i'r Bwrdd Cynllunio Strategol (BCS) dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl. Bydd penaethiaid pob Gwasanaeth a chynrychiolwyr Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Cymdeithasau Staff, Cyllid ac Adnoddau Dynol ac eraill, yn bresennol yng nghyfarfodydd y BCS yn ôl yr angen.
- 2.3 Mae tua 50 llif gwaith unigol wedi cael eu hystyried gan y BCAA. Cafodd y rhain eu nodi o ganlyniad i gyfuniad o adolygiadau mewnol a gynhaliwyd eisoes a'r Proffiliau Gwerth am Arian ACEM (ACEM GAA). Cafodd Arweinydd Gwasanaeth neu Arweinydd Swyddogaeth ei bennu ar gyfer pob llif gwaith. Cafodd yr argymhellion terfynol eu gwneud ar 28 Medi 2015 ac ar ôl iddynt gael eu cytuno, cynhaliwyd proses ddiwydrwydd ddyladwy ar yr arbedion arfaethedig. Ceir mwy o fanylion am yr arbedion hyn yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.
- 2.4 Yn ogystal â nodi'r arbedion angenrheidiol, cynhaliwyd y broses gyllidebol arferol i ddatblygu gofynion cyllidebol ar gyfer y dyfodol, a cheir manylion am hyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn (CATC). Wrth ddatblygu'r CATC rhoddwyd ystyriaeth i'r materion a ganlyn:
- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a'r Cynllun Gweithredu 2016-2017
 - Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
 - Y broses gynllunio strategol
 - Strategaethau eraill yr Heddlu
 - Yr hinsawdd economaidd bresennol
 - Amcangyfrifon o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
 - Rhagolygon cyllidebol ar gyfer y cyfnod gan gynnwys dyfarniadau cyflog
 - Y sefyllfa ariannol bresennol.
 - Y Rhaglen Gyfalaf, Cod Materion Ariannol a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
 - Cronfeydd wrth Gefn a Balansau
 - Cynhyrchu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
 - Cydweithio
- 2.5 Trafodwyd y cyllidebau drafft yn fanwl gan Dîm y Prif Swyddogion ac arweinwyr y Gwasanaethau ar 16 Tachwedd 2015. Trafodwyd y cynigion gan Swyddogion Cyllid y

Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar 17 Tachwedd 2015. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 26 Rhagfyr i drafod y cynigion ar gyfer y gyllideb. Cyhoeddwyd ffigyrau Grant y Llywodraeth ar 17 Rhagfyr 2015. Cytunwyd ar y cynigion terfynol ar 18 Rhagfyr mewn cyfarfod rhwng y Comisiynydd a'i staff a Thîm y Prif Swyddogion.

- 2.6 Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion am yr holl datblygiadau ers y CATC blaenorol, gan gyflwyno'r sefyllfa ddiweddaraf o ran Refeniw, Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn.

3. Cyllideb 2015-16

- 3.1 Cafodd Cyllid y Llywodraeth ei dorri 5.1% yn 2015-16, gan olygu fod yr arian grant wedi'i dorri 20.6% yn ystod y cyfnod rhwng 2011-12 a 2015-16. Mae hyn 8.6% yn uwch na'r 12% a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan y Swyddfa Gartref yn 2010. Roedd y cynnydd oherwydd fod yr hinsawdd economaidd yn waeth na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol a hefyd oherwydd fod y Swyddfa Gartref wedi gwneud toriadau ychwanegol er mwyn ariannu mentrau penodol yn ganolog. Er mwyn mantoli'r gyllideb ar gyfer 2015-16 gwnaed toriadau gwerth £4.448m. Mae'r toriadau hyn ar y trywydd iawn i gael eu gwneud ac, ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd tanwariant bychan yn erbyn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2015-16, fodd bynnag bydd cost ariannu diswyddiadau gwirfoddol yn arwain at ddefnyddio rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi. Ceir manylion y toriadau a wnaed isod:

Toriadau a wnaed yn 2015-16

	2015-16
Adolygiad o'r Gwasanaeth Busnes	-£0.642m
Adolygiad o'r Gwasanaeth Corfforaethol	-£0.084m
Dyfodol Gweithredol GPLI	-£0.269m
Dyfodol Gweithredol SCCHau	-£0.507m
Adolygiad o'r Gwaith Fforensig	-£0.300m
Cymorth Gwyddonol	-£0.033m
Uned Diogelu'r Cyhoedd	-£0.096m
Dyfodol Cyfathrebu	-£0.499m
Cynllunio Gweithredol	-£0.075m
Plismona Ffyrdd	-£0.104m
Ystadau	-£0.126m
Cerbydau a Chludiant	-£0.075m
Dadansoddwyr	-£0.056m
Goramser	-£0.150m
Y Gynghrair Drylliau Tanio	-£0.300m
Amodau Cyflogaeth (CRTP)	-£0.203m
Cyfalaf a Benthycia	-£0.400m
Adolygiad o'r Gyllideb	-£0.529m
Cyfanswm i'w dorri	-£4.448m

- 3.2 Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (ACEM) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiadau blynyddol o'r materion a ganlyn: sefyllfa ariannol yr Heddlu; y broses gynllunio; arbedion a wnaed eisoes; ac arbedion sydd eisoes i'w gwneud. Isod, ceir crynodeb o'r adolygiadau ac archwiliadau a gynhaliwyd.
- 3.3 Mae adolygiadau ACEM *Gwerthfawrogi'r Heddlu* wedi'u cynnwys yn rhaglen adolygu newydd yr Arolygiaeth, sef *Adolygiadau PEEL* (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Y prif gwestiwn a ofynnir gan ACEM mewn perthynas ag effeithlonrwydd yw: 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd?' ac mae'r tri chwestiwn isod yn sail i'r asesiad:
1. Pa mor dda y mae'r heddlu yn defnyddio ei hadnoddau i ateb y galw?
 2. Pa mor gynaliadwy a fforddiadwy yw model y gweithlu?
 3. Pa mor gynaliadwy yw sefyllfa ariannol yr heddlu yn y tymor canolig a'r tymor hir?
- 3.4 Caiff heddluoedd eu graddio yn '*rhagorol*', '*da*', '*angen gwella*', neu '*annigonol*'. Y raddfa gyffredinol oedd '*da*'. Ar adeg yr archwiliad roedd disgwyl i'r toriad i gyllidebau'r heddlu fod yn uwch na'r hyn ydyw bellach, fodd bynnag fe wnaeth Heddlu Gogledd Cymru barhau â'i strategaeth i recriwtio swyddogion â'r posibilrwydd o fynd y tu hwnt i'r gyllideb, gan reoli'r risg hwn â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Ar y sail hwn, fe wnaeth ACEM ddod i'r casgliad fod '*angen gwella*' ar yr ail gwestiwn uchod (barnwyd bod y ddau arall yn '*dda*'). Mae'r setliad terfynol wedi lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn rhaid lleihau nifer y swyddogion rheng-flaen gan wneud model y gweithlu yn fwy cynaliadwy. Ceir crynodeb o sylwadau'r ACEM isod:

'Mae ACEM yn ystyried bod Heddlu Gogledd Cymru yn dda. Mae'r heddlu wedi rheoli ei sefyllfa ariannol yn dda ac wedi llwyddo i leihau effaith toriadau cyllidebol ar blismona rheng-flaen. Lleihad bychan yn unig a gafwyd ym maint y gweithlu yn gyffredinol. Mae'r heddlu yn gweithio'n adeiladol mewn cydweithrediad â heddluoedd eraill a phartneriaid lleol. Mae wedi gosod gweledigaeth glir i wella plismona ac mae staff yn gweithio'n dda i ddarparu gwell gwasanaethau.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd cael gwell dealltwriaeth o'r galw er mwyn sicrhau y gellir defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon i flaenoriaethu ac ymateb i anghenion y cyhoedd. Mae angen iddo wneud mwy i sicrhau bod swyddogion yr heddlu yn gallu gweithio mor effeithlon â phosibl, drwy ddefnyddio technoleg newydd.

Mae model y gweithlu presennol yn gydnaws â'r cynlluniau ariannol ac mae'r arbedion a gafwyd yn sgil lleihau'r gweithle yn gynaliadwy hyd yma. Fodd bynnag, mae'r heddlu wedi mabwysiadu polisi o gyflogi mwy o swyddogion heddlu na'r hyn a ganiateir gan ei gyllideb ac mae'n defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i fantoli'r gyllideb. Nid yw'r dull hwn o weithredu yn gynaliadwy. Mae Heddlu Gogledd Cymru yng nghyfnod cynnar y broses o benderfynu sut y gall fod angen newid y model plismona er mwyn sicrhau mwy o doriadau yn nifer y staff a darparu lefelau cynaliadwy ac effeithlon o blismona ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r heddlu wedi cynllunio cyllideb gytbwys drwy gydol yr adolygiad o wariant ac wedi gorffen pob blwyddyn hyd at 2014/15 gyda thanwariant. Golyga hyn ei fod wedi gallu adeiladu lefel uchel o gronfeydd wrth gefn, ac mae'n bwriadu defnyddio rhywfaint ohonynt i fuddsoddi yng nghost newidiadau'r dyfodol.'

Mae'r asesiad llawn ar gael yn

<http://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmic/north-wales/>

- 3.5 Gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) y sylwadau a ganlyn ar ei asesiad gwerth am arian yn ei llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015;

'Rwyf yn fodlon fod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi rhoi trefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau'

'Fe wnaeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl reoli eu cyllidebau refeniw ar gyfer 2014-15 yn effeithiol, ac maent yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i heriau ariannol sylweddol'

'Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu cynlluniau i reoli pwysau ariannol dros y tymor canolig a'r tymor hwy'


- 3.6 Dangosodd y ddau asesiad fod y toriadau yn cael eu rheoli a bod y strategaeth o ran amddiffyn y rheng flaen a nifer Swyddogion yr Heddlu yn cael ei chyflawni hyd y gellir, ond y bydd hyn yn fwyfwy anodd wrth wneud toriadau pellach yn y blynyddoedd i ddod.

4. Dyranïadau Ariannol

- 4.1 Ni roddwyd Dyranïadau Ariannol Dros Dro gan y Llywodraeth ar gyfer 2016-17 fel rhan o setliad 2015-16. Roedd llawer o ansicrwydd ynghylch ariannu yn y dyfodol pan gyflwynwyd yr AATC ym mis Ionawr 2015, er ei fod yn amlwg fod y wlad wedi cyrraedd hanner ffordd yn unig o ran mantoli'r gyllideb flynyddol ar ddiwedd 2014-15 a bod yr holl bleidiau gwleidyddol wedi ymrwymo i fantoli'r gyllideb flynyddol cyn etholiadau mis Mai 2015. Cafodd toriad rhagdybiedig o -4% ei gynnwys yn y rhagolygon ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2018-19. Arweiniodd hyn at ddiffyg amcanol o £15.5m dros y cyfnod rhwng 2015-16 a 2018-19, sef y targed arbedion a ddefnyddid gan y BCAA.

- 4.2 Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai, cynhaliodd y Llywodraeth Adolygiad o Wariant (AoW2015) dros fisoedd yr haf. Ymgynghorodd y Trysorlys ar doriadau rhwng 25% a 40% mewn termau real; mae'r rhain yn cyfateb i ostyngiad ariannol rhwng 19% a 35% dros gyfnod o bedair blynedd. Yr arwyddion oedd y byddai'r toriad yn agosach at y ffigwr o 19% dros bedair blynedd. Mae hyn yn cyfateb i AATC mis Ionawr 2015; fodd bynnag, yr hyn a oedd yn wahanol oedd y ffaith fod y pedair blynedd bellach yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 yn hytrach na rhwng 2015-16 a 2018-19. Mae hyn yn golygu blwyddyn ychwanegol o doriadau yn wahanol i'r nod a osodwyd yn flaenorol gan y Canghellor i fantoli cyfrifon y wlad erbyn 2018-19 a fyddai, ar sail rhagdybiaethau AATC 2015, yn golygu toriadau ychwanegol o £3m.

- 4.3 Cyhoeddwyd canlyniad yr adolygiad o wariant fel rhan o Ddatganiad yr hydref y Canghellor ar 25 Tachwedd 2015. Yn ei araith, cyfeiriodd y Canghellor at ariannu yr heddlu a dywedodd: "*nid dyma'r amser ar gyfer gwneud mwy o doriadau i'r heddlu, dyma'r amser i gefnogi ein heddlu a rhoi'r offer iddynt wneud y gwaith.*" Roedd hyn yn arwydd o newid cyfeiriad ac na fyddai'r toriadau mor llym â'r hyn a nodwyd yn wreiddiol.
- 4.4 Cyhoeddwyd mwy o fanylion yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw a oedd yn dangos fod cyllid yr heddlu yn gyffredinol, yn cynnwys arian ar gyfer Gwrthderfysgaeth, wedi cael ei dorri 1.3% mewn termau real dros bedair blynedd. Mewn llythyr at Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstablaid, dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona: "*o ystyried y gallu sydd gennych i godi treth y cyngor, golyga hyn setliad safonol termau real ar gyfer plismona yn gyffredinol.*" Dangosir hyn orau yn y graff isod o Ddogfen Adolygiad o Wariant y Trysorlys sy'n dangos y bydd y gyfran o holl gyllid yr heddlu a ddyrannwyd i feysydd plismona yn gostwng dros y bedair blynedd nesaf.



- 4.5 Yn ystod misoedd yr haf ymgynghorodd y Swyddfa Gartref hefyd ar y fformiwla sy'n dyrannu cyfanswm y gyllideb sydd ar gael i'r heddlu ym meysydd plismona. Nid oedd yr ymgynghoriad cyntaf ym mis Gorffennaf 2015 yn cynnwys enghreifftiau o'r fformiwla arfaethedig newydd. Ymgynghorwyd ymhellach ym mis Medi 2015, ac fe wnaeth y Gweinidog Plismona ddarparu manylion gwelliannau i'r fformiwla ariannu yr oedd y Swyddfa Gartref wedi ymgynghori yn eu cylch yn ystod yr haf. Fe wnaeth y Gweinidog hefyd ddarparu enghraifft gyfyngedig o'r dyraniadau diwygiedig ar sail cyllidebau 2015-16. Roedd y cynnig newydd yn dileu un ffactor, Band D cyfatebol, oherwydd daeth i'r amlwg nad oedd y ffactor hwn yn gweithio yn ôl y bwriad. Diwygiwyd pwysoliad y pedwar ffactor arall fel a ganlyn.

Newidyn	Pwysoliad gwreiddiol	Pwysoliad diwygiedig
Maint y boblogaeth	24%	30%
Cartrefi heb oedolion yn gweithio a phlant sy'n ddibynyddion	25%	31%
Dan Bwysau	25%	31%
Band D cyfatebol	16%	0
Dwysedd Bar	10%	8%

4.6 Newidiodd cyfran y cyllid a ddyrannwyd i Ogledd Cymru o 1.03% i 1.06%, mae hwn yn newid % bychan ond ar sail cyllid 2015-16 byddai wedi arwain at £2m o arian ychwanegol. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg fod y Swyddfa Gartref wedi defnyddio'r ystadegau anghywir yn eu henghreffftiau, ac arweiniodd hyn at gyhoeddiad gan y Gweinidog Plismona y byddai'r broses yn cael ei hatal ac y bydd dyraniadau 2016-17 yn cael eu gwneud mewn ffordd debyg i'r blynnyddoedd diweddar. Byddai hyn yn golygu yr un toriad % i bob heddlu. Disgwylir mwy o waith ac ymgynghori ar gynigion y fformiwla ariannu. Golyga hyn y bydd yr ansicrwydd ynglŷn â lefel ariannu Heddlu Gogledd Cymru yn parhau hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar fformiwla ariannu diwygiedig. Bydd y cynnig yn cynnwys cynigion trawsnewid ynghych sut y gellir symud o'r dyraniad presennol i ddyraniad diwygiedig. Dyma'r risg mwyaf i'r gyllideb ar hyn o bryd; os defnyddir y fformiwla presennol bydd yn golygu lleihad o £10.5m mewn arian grant a delir ar hyn o bryd fel 'grant llawr'.

4.6 Cyhoeddwyd canlyniad yr ymgynghoriadau uchod a manylion eraill gan y Swyddfa Gartref ar 18 Rhagfyr 2015. Y prif benawdau oedd:

- Gostyngiad cyfradd safonol o 0.6% ar gyfer pob maes plismona. Bydd hyn yn golygu lleihad o £0.417m yn yr arian grant i Ogledd Cymru. Mae hyn ar ben y costau Yswiriant Gwladol ychwanegol o £2.2m yn 2016-17 o ganlyniad i'r newidiadau i bensiwn y wladwriaeth a gyhoeddwyd eisoes gan y Llywodraeth sydd i bob pwrpas yn doriad o 3% i'r gyllideb.
- Roedd y cyhoeddiad hefyd yn nodi fod adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i wrthderfysgaeth a bod Cronfa ar gyfer Gweddnewid gwerth £76m wedi'i sefydlu i ariannu, ymhlith pethau eraill, drylliau tanio. Bydd mwy o fanylion am hyn i ddod yn yr wythnosau nesaf.
- Mae 'brigdorri' wedi codi o £160m i £218m, ond mae bellach yn cynnwys £80m ar gyfer gwaith i uwchraddio system gyfathrebu'r heddlu yn genedlaethol.
- Ni roddwyd manylion y Grant Cyfalaf ond mae'r cyfanswm wedi gostwng 40%, ac os caiff hwn ei drosglwyddo, fel sy'n debygol, byddai'n golygu £0.360m yn llai mewn grant cyfalaf i Ogledd Cymru.
- Mae heddluoedd Lloegr yn parhau i dderbyn arian treth y cyngor hanesyddol sydd bellach wedi codi i £514m o'r £503m blaenorol.
- Ni chafwyd dim cyhoeddiadau yn ymwneud ag ariannu'r dyfodol na'r fformiwla ariannu.

- 4.7 Ar sail y cyfansymiau a roddwyd a chyhoeddiad eleni, amcangyfrifwyd y bydd toriad pellach o 1% i grantiau ym mhob un yn ystod y tair blynedd nesaf. Er bod hyn yn llai na'r disgwyl, mae'n golygu llai o arian gan y llywodraeth, oherwydd fod y llywodraeth wedi rhagdybio y bydd treth y cyngor yn cael ei gynyddu 2% yn lleol ac felly na fydd gostyngiad cyffredinol i gyllid yr heddlu.
- 4.8 Daw canlyniad cam nesaf y fformiwla ariannu yn fwy amlwg dros y flwyddyn nesaf, dyma'r risg mwyaf i'r ariannu ond dyma hefyd yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer plismona yng ngogledd Cymru yn y tymor canolig.

5. Treth y Cyngor a'r Praesept

- 5.1 Mae dwy elfen i gyfanswm Cyllideb net yr Heddlu, cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae cyfran y ddwy ffynhonell incwm hyn i Heddlu Gogledd Cymru fel a ganlyn:

	2015-16	
	£m	%
Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth	72.745	51.6%
Cyfanswm y Praesept	68.322	48.4%
Cyfanswm Gofynion y Gyllideb	141.067	

- 5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm gofynion y praesept â'r sylfaen dreth, y sylfaen dreth yw nifer yr eiddo Band D cyfatebol yn ardal pob Heddlu. Darperir y Sylfaen Dreth gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Bu cynnydd bach o 0.48% yn sylfaen dreth 2016-17. Golyga hyn y bydd cynnydd canrannol yn Nhreth y Cyngor yn rhoi cynnydd canrannol ychydig yn uwch i'r Praesept (y Praesept yw cyfanswm yr incwm a geir o Dreth y Cyngor).
- 5.3 Mae'r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, sef y rheolau capio, yn wahanol yng Nghymru a Lloegr. Cafodd Ardaloedd Heddlu yn Lloegr fynediad at grantiau ar wahân os oeddynt yn cytuno i gyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Cafodd y rhain eu talu'n wreiddiol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLIL) ond bellach maent wedi'u cynnwys yn Grant y Swyddfa Gartref ac maent gwerth cyfanswm o £514m yn 2016-17. Gogledd Cymru sydd â'r Treth y Cyngor uchaf yng Nghymru a Lloegr, ond os byddai'r Grantiau Treth y Cyngor hanesyddol hyn yn cael eu hystyried, yna byddai Gogledd Cymru yn y 6^{ed} safle.
- 5.5 Cyhoeddwyd y rheolau capio ar gyfer Lloegr, a phetai Treth y Cyngor yn cynyddu fwy na 2% byddai'n rhaid cynnal refferendwm, ond bydd hawl gan y 10 ardal heddlu â'r treth y cyngor isaf godi treth y cyngor £5 a, phe bai hynny'n digwydd gallai olygu cynnydd o rhwng 3.2% a 5.7% ar gyfer yr ardaloedd plismona hynny.

5.6 Ni chyhoeddwyd rheolau capio yng Nghymru, er bod sawl awdurdod lleol wedi awgrymu y byddant efallai yn cynyddu treth y cyngor hyd at 5% yn dilyn toriadau grant o rhwng -0.1% a 4.1%. Nid oes Grant Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor ar gael yng Nghymru.

5.7 Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhagdybio y byddai ardaloedd heddlu yn cynyddu treth y cyngor 2% ac y byddai'r sylfaen dreth yn codi 0.5% er mwyn rhoi'r 'cynnydd termau real safonol' a gyhoeddwyd fel rhan o Ddatganiad yr hydref.

6. Rhagolygon Cyllidebol a Gostyngiadau wedi'u Cynllunio ac adleoli 2016-17 i 2019-20

6.1 Ceir crynodeb o Ragolygon y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd i ddod yn Atodiad B.

6.2 Mae'r prif ragdybiaethau, fel y'u nodwyd yn y CATC blaenorol, fel a ganlyn:

- Chwyddiant blynyddol o 1% i gyflogau o fis Medi
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol wedi'i ddefnyddio lle bo'n hysbys
- Cynnydd o 3.5% yn Nhreth y Cyngor yn 2016-17; 2.5% yn 2017-18 a 2018-19
- Gostyngiadau grant o 5.1% yn 2014-15, a 4% ar gyfer y 3 blynedd nesaf
- Bydd newidiadau i gostau Yswiriant Gwladol yn 2016-17 yn ychwanegu £2.7m arall at y bil cyflogau, sy'n gyfwerth â thoriad pellach o 3.7% i'r grant

6.3 Adolygwyd a diwygiwyd yr holl ragdybiaethau hyn i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r chwyddiant sydd wedi'i gynnwys. Mae chwyddiant i gyflogau wedi aros ar 1%, mae'r chwyddiant ar gyfer 2016-17 wedi gostwng i 1% ac adolygwyd pob llinell gyllidebol. Ailgyfrifwyd yr amcangyfrif o gostau Yswiriant Gwladol ar sail adolygiad o fandio Yswiriant Gwladol a gostyngiad mewn swyddi. Arweiniodd hyn at ostyngiad o £1.469m yn y gyllideb cyn gwneud yr arbedion penodol.

6.4 Mae'r gostyngiad grant ar gyfer 2016-17 yn -0.6% a bellach amcangyfrifir y bydd gostyngiad pellach o -1% bob blwyddyn dros y 3 blynedd nesaf. Golyga hyn y bu modd gostwng y cynnydd yn nhreth y cyngor o'r 3.5% a gynlluniwyd i'r cynnydd tybiedig o 2% gan y Swyddfa Gartref, a fydd yn arwain at gynnydd cyffredinol yn y gyllideb o 0.89%, mae hyn yn is na rhagamcan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am chwyddiant o 1% yn 2016 a 1.8% yn 2017.

6.5 Drwy gydol y flwyddyn, cafodd cynlluniau eu paratoi ar gyfer toriadau posibl o £4.563m, byddai hyn wedi cynnwys swyddi gweithredol gan gynnwys 19 swydd SCCH. Ni fydd yn rhaid colli swyddi'r SCCH yn 2016-17 ac mae'r mater hwn yn destun adolygiad hyd nes y gwneir cyhoeddiadau pellach ynghylch ariannu yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd toriadau o £2.838m a caiff y rhain eu gwneud yn 2016-17. Hefyd, mae nifer o alwadau newydd ar waith plismona a amlygwyd yn genedlaethol ac yn lleol, fel Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed (yn benodol Amddiffyn Plant rhag Camfanteisio Rhywiol), Troseddau Seiber (yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac eraill). Mae hyn wedi arwain at adleoli £1.4m o'r arbediad o £2.8m i swyddi rheng-flaen. Ceir

manylion yn y paragraffau a ganlyn, ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau cyffredinol. Ceir crynodeb o'r newidiadau i ragdybiaethau isod:

Newid rhwng 2015/16 a 2016/17	Ionawr 2015	Ionawr 2016
Toriad yng ngrant y llywodraeth	4%	0.6%
Cynnydd yn nhreth y cyngor	3.5%	2%
Toriadau angenrheidiol yn 2016/17	£4.563m	£2.838m
Lleihad yn nifer y SCCH	19	0

6.4 Mae effaith chwyddiant a'r toriadau i'r Grant wedi'u nodi isod

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Cynnydd mewn chwyddiant	£4.078m (2.60%)	£2.232m (2.04%)	£2.580m (1.60%)	£2.375m (1.45%)
Gostyngiad i'r Grant	£0.417m (-0.6%)	£0.728m (-1.0%)	£0.720m (-1.0%)	£0.713m (-1.0%)
Wedi tynnu: arian ychwanegol o'r Cynnydd yn Nhreth y Cyngor	(£1.657m) (2.0%)	(£1.883m) (2.5%)	(£1.935m) (2.5%)	(£1.989m) (2.5%)
Toriadau Angenrheidiol	£2.838m	£2.077m	£1.365m	£1.099m

6.5 Rhoddwyd cryn bwyslais ar doriadau yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a bu'n rhaid torri cyfanswm o £24.1m o'r gyllideb. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, mae angen adnoddau ychwanegol mewn rhai meysydd gwaith. Gellir gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith hwn drwy ail-flaenoriaethu o fewn Gwasanaethau; fodd bynnag, mae'n rhaid cael mwy o staff i ymdrin â rhai gofynion, ac ariannwyd y swyddi hyn gan y toriadau a nodwyd. Mae'r ffigur chwyddiant uchod yn cynnwys £1.072m o fuddsoddiad ychwanegol yn Uned Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed. Mae hwn yn fuddsoddiad o 19 Swyddog a 5 aelod staff (gall y cyfuniad terfynol hwn newid) i atal, nodi ac ymchwilio i achosion o gamfanteisio ar bobl sy'n agored i niwed a nodwyd fel blaenoriaeth genedlaethol yn ogystal â blaenoriaeth leol, ac mae hyn yn cynnwys camfanteisio ar y we. Mae angen buddsoddiad o £0.068m yn y broses cofnodi troseddau i gyrraedd gofynion cenedlaethol yn ogystal â buddsoddiad o £0.233m i gyflawni nifer o brosiectau mawr yn TG ac Ystadau yn ystod y blynyddoedd nesaf.

6.6 Mae'r set terfynol o doriadau, yn ychwanegol at y gostyngiadau chwyddiant o £1.469m a wnaed, wedi'u rhestru isod.

Toriadau yn 2016/17	
Adolygiad Gwasanaethau Busnes	£0.237m
Adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol	£0.326m
Dyfodol Gweithredol GPLI	£0.114m
Cymorth Gwyddonol	£0.270m
Dyfodol Cyfathrebu	£0.180m
Ystadau	£0.266m

Cerbydau a chludiant	£0.075m
Dadansoddwyr	£0.027m
Goramser	£0.150m
Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol	£0.099m
Arlwyo	£0.050m
Adolygiad o Reolaeth y Gwasanaeth Cefnogi	£0.215m
Gwasanaethau Trosedd	£0.147m
Caffael	£0.015m
Cynhyrchu Incwm	£0.200m
Trwyddedu Drylliau Tanio	£0.203m
Eiddo a Atafaelwyd	£0.012m
Arbedion Effeithlonrwydd Gwasanaethau wedi'u Targedu	£0.345m
Cyfanswm i'w dorri	£2.838m

- 6.6 Mae hyn yn gadael bwllch arbedion o £4.541m dros y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae cynlluniau ar gyfer yr arbedion ychwanegol hyn wedi cyrraedd gwahanol gamau; caiff y cynlluniau hyn eu datblygu ymhellach a'u hadolygu dros y 12 mis nesaf. Bydd y broses o nodi mwy o arbedion effeithlonrwydd yn parhau.

	2017/18 i 2019/20
Adolygiad Gwasanaethau Busnes	£0.726m
Adolygiad Gwasanaethau Corfforaethol	£0.026m
Dyfodol Gweithredol GPLI	£0.081m
Dyfodol Gweithredol SCCH	£1.037m
Dyfodol Cyfathrebu	£0.096m
Ystadau	£0.318m
Cerbydau a Chludiant	£0.228m
Contractau TG	£0.762m
Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu	£0.196m
Cydweithio	£0.200m
Caffael	£0.100m
Adolygiad o'r Gyllideb	£0.271m
Menter Cyllid Preifat (PFI)	£0.500m
Cyfanswm	£4.541m

7. Recriwtio

- 7.1 Cyfanswm Swyddogion yr Heddlu Sefydledig (nifer y Swyddi Swyddogion Heddlu sy'n cael eu hariannu yn y Gyllideb) oedd 1,406 yn 2015-16, ac fe wnaeth hyn ostwng i 1,402 yn sgil lleihad yn nifer y swyddogion a gafodd eu secondio y tu allan i ardal yr heddlu. Nod y Cynllun Recriwtio yw adleoli Swyddogion sydd wedi'u hyfforddi yn y Swyddi Swyddogion yr Heddlu Sefydledig. Bydd nifer y swyddi yn amrywio oherwydd niferoedd y swyddi a gaiff eu hariannu gan grantiau a'r Swyddogion sydd ar Secondiad, yn ogystal ag effaith unrhyw sifileiddio neu newidiadau eraill yn Swyddi Swyddogion yr Heddlu. Bydd nifer gwirioneddol y Swyddogion yn amrywio, yn dibynnu ar nifer y bobl a fydd yn ymddeol ac eraill a fydd yn gadael a'r proffil recriwtio. Bydd nifer

gwirioneddol y Swyddogion, gan gynnwys Swyddogion ar brawf yn fwy na'r Swyddi Sefydledig yn ystod 2016-17.

- 7.2 Y nifer mwyaf o recriwtiaid y gellir eu derbyn yw 18 swyddog ar brawf, 4 gwaith y flwyddyn, rhagwelwyd y byddai'n rhaid cwtogi hyn i ddwywaith y flwyddyn, ar sail y rhagolwg ariannol cyn cyhoeddiad Datganiad yr hydref. Ar sail y rhagolwg diwygiedig, y cynllun ar gyfer 2016-17 yw derbyn 18 o swyddogion pedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Defnyddir y Gronfa Swyddogion ar Brawf ac arbedion trosiant i ariannu'r niferoedd ychwanegol o swyddogion sefydledig yn ystod y flwyddyn a rheoli'r risg y bydd yn rhaid gwneud toriadau pellach os bydd llai o arian yn y dyfodol. Bydd hyn yn gwastatáu'r amrywiadau o ran cydweddu'r gwir niferoedd â nifer y swyddi y cyllidebwyd ar eu cyfer.

Cyfanswm y Swyddogion Heddlu Sefydledig ar 1.4.2015 1402

Newid net 7

Cyfanswm y Swyddogion Heddlu Sefydledig ar 1.4.2016 1409

- 7.3 Caiff llif cyson o SCCHau eu recriwtio fel Swyddogion Heddlu. Y rhagolwg cychwynnol oedd y byddai lleihad o 19 yn nifer y SCCHau; bellach mae'n bosibl y gellir gohirio'r lleihad hwn o leiaf. Caiff SCCHau eu recriwtio fesul 12 a'r disgwyl oedd y byddai angen eu derbyn un neu ddwywaith yn 2016-17 ond bellach bydd angen eu derbyn deirgwaith neu o bosibl pedair gwaith.

- 7.4 Er bod y gwelliant yn y rhagolwg ariannol yn fater i'w groesawu, mae'n gosod her ar gyfer yr adran recriwtio, yn enwedig gan fod y newid cyfeiriad wedi dod yn hwyr iawn yn y cylch cynllunio. Mae cynllunio ar gyfer recriwtio'r niferoedd ychwanegol, ynghyd ag asesu'r adnoddau ychwanegol y gall fod eu hangen yn y tymor byr, yn cael eu cwblhau.

8. Risgiau

- 8.1 Roedd cryn ansicrwydd wrth osod cyllidebau 2016-17 oherwydd yr adolygiad o wariant a'r adolygiad o'r fformiwla, ac ni chafodd y cyllid ei gadarnhau tan 17 Rhagfyr 2015. Nid yw'r ffigyrau grant wedi'u cyhoeddi ar gyfer unrhyw ardal heddlu y tu hwnt i 2016-17. Mae risg yn parhau y bydd toriadau i'r cyfanswm a ddyrannwyd i ardaloedd heddlu yn y blynyddoedd i ddod, mae'r llywodraeth wedi rhagdybio cynnydd yn nhreth y cyngor fel na fydd ardaloedd heddlu yn wynebu toriad termau real yn eu cyllidebau.

- 8.2 Y prif risg dros y flwyddyn nesaf yw'r fformiwla ariannu. Roedd y ffigyrau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref yn ystod adolygiad 2015-16 yn dangos y byddai dyraniad Gogledd Cymru yn cynyddu o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm, sydd yn cyfateb i £2m o arian ychwanegol gan ddangos sensitifrwydd unrhyw newidiadau. Ar y llaw arall, roedd amcangyfrifon a ddarparwyd gan Ddyfnaint a Chernyw yn dangos lleihad o £12m yn dyraniad Gogledd Cymru. Ni chyhoeddwyd manylion yr adolygiad newydd ac nid yw'n glir a fydd y cynnig nesaf yn seiliedig ar gynnig 2015-16 neu ddull gweithredu cwbl wahanol.

- 8.3 Mae risgiau cenedlaethol a lleol newydd yn dod i'r amlwg y bydd yn rhaid eu hariannu, megis Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Throseddau Seiber, gwnaed dyraniadau ychwanegol yn ystod 2016-17 ond mae'r rhain yn feysydd sydd yn gwneud defnydd dwys o adnoddau a bydd angen eu hasesu eto yn y dyfodol. Yn lleol, bydd datblygiad y Carchar yn Wrecsam ac Atomfa Niwclear Wylfa B yn cael effaith ar adnoddau. Mae cyllidebau asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus yn cael eu torri a gallai hyn hefyd gynyddu'r galw ar wasanaethau'r Heddlu.
- 8.4 Mae'r cynlluniau ar gyfer arbedion 2015-16 yn eu lle ac yn cael eu rhoi ar waith; fodd bynnag bydd angen sicrhau'r arbedion posibl ar gyfer 2016-17. Credir bod modd gwneud yr arbedion hyn yn ystod y flwyddyn. Mae angen cadarnhau a chyflenwi'r arbedion ar ôl 2016-17. Nid yw'r holl arbedion dan reolaeth yr Heddlu a bydd arbedion Cydweithio yn dibynnu ar Heddluoedd a sefydliadau eraill.
- 8.5 Mae'r toriadau amcangyfrifedig angenrheidiol yn seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio y byddir yn cytuno ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £0.670m yng nghyllidebau 2017-18.
- 8.6 Mae'r Swyddfa Gartref wedi brigdorri'r arian a ddyrannwyd i ardaloedd Heddlu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ariannu unedau a mentrau cenedlaethol. Gall unrhyw fentrau newydd arwain at fwy o frigdorri.
- 8.7 Gellid gwneud mwy o doriadau pe bai'r hinsawdd economaidd yn gwaethygu. Mae pob toriad ychwanegol o 1% i'r Grant Ariannu Cyffredinol yn golygu gostyngiad ariannol o £0.727m.
- 8.8 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau, gall unrhyw newidiadau bychan megis codiadau cyflog, cyfraniadau pensiwn neu Yswiriant Gwladol gael effaith anghymesur ar y gyllideb.
- 8.9 Mae chwyddiant wedi bod yn isel yn ystod y blynyddoedd diwethaf a newidiwyd y rhagdybiaethau cyllidebol i adlewyrchu hyn, fodd bynnag, gallai hyn newid yn enwedig mewn meysydd megis tanwydd ac ynni lle gall prisiau fod yn gyfnewidiol dros ben.

8.8 Mae'r tabl isod yn tanlinellu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau:

Prif newidynnau o ran sensitifrwydd	£m
newid o 1% yn Nhreth y Cyngor	0.670
newid o 1% yn y grant	0.727
newid o 1% mewn cyflogau	0.900
newid o 1% mewn chwyddiant cyffredinol	0.378

9. Cronfeydd wrth Gefn

- 9.1 Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i sicrhau ei fod yn cadw cronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a rhagamcanu a nodir uchod, mae angen i'r Comisiynydd ystyried y risg i wariant (gwario mwy na'r hyn sydd yn y gyllideb), a digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol a digwyddiadau eraill na ellir eu rhagweld. Mae elfen o'r risg hon wedi'i rheoli yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau argyfwng. Mae'r cyllidebau hyn yn cael eu lleihau ac mae cyfran mwy o'r risg yn cael ei throsglwyddo i'r Cronfeydd wrth Gefn a'r Balansau.
- 9.2 Ar hyn o bryd mae £4.189m yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol sy'n 3% o gyllideb net amcangyfrifedig 2016-17. Ystyrir mai'r amrediad gochelgar yw 3% i 5% o'r gyllideb net. Cynhaliwyd adolygiad o'r cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb y llynedd, a gan fod Cronfa wrth Gefn benodol ar gyfer Digwyddiadau Mawr, penderfynwyd lleihau'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol i £4.189m sef tua 3% o'r gyllideb net. Yn y gorffennol roedd y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn cynnwys arian ar gyfer Digwyddiadau Mawr os oedd ei angen.
- 9.4 Bydd y defnydd o'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol o ran gwariant cyfalaf a'r setliadau refeniw terfynol, felly mae'r tabl isod yn dangos y cynllun presennol o ran sut y bydd y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn cael eu defnyddio orau i gefnogi cyflenwi gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Yn yr achosion hynny lle nad yw'r defnydd o'r Gronfa wrth Gefn yn hysbys (megis y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Mawr) ni ddangosir newidiadau. Adolygir y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn rheolaidd.

Mae'r tabl isod yn dangos y rhagamcanion o sefyllfa'r Cronfeydd wrth Gefn ar ddiwedd pob blwyddyn.

Reserve Position							
Usable Reserves at	31.3.15		31.3.16	31.3.17	31.3.18	31.3.19	
	£m		£m	£m	£m	£m	
Capital Receipts Reserve	4.641	-1.300	3.341	0.000	0.000	0.000	Can only be used for capital, planned additional sales are included in the capital funding
Capital Grants Unapplied	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000	0.000	Can only be used for capital
General Fund Balance	4.189	0.000	4.189	4.189	4.189	4.189	Set at 3% of net budget from 15-16
Earmarked General Fund Reserves	32.235	-3.520	28.715	18.449	14.775	13.512	Detailed below
Total Usable Reserves	41.065	-4.820	36.245	22.638	18.964	17.701	

Mae'r tabl isod yn dangos rhagamcanion o sefyllfa'r Cronfeydd wrth Gefn sydd wedi'u clustnodi ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, a cheir disgrifiad ar gyfer pob un ohonynt yn adran 9.5.

Description	31.3.15		31.3.16	31.3.17	31.3.18	31.3.19
	£m		£m	£m	£m	£m
Capital Investment	14.845	-2.288	12.557	3.373	0.885	0.885
Major Incident	2.235	0.000	2.235	2.235	2.235	2.235
Pension Ill Health Reserve	0.697	0.000	0.697	0.697	0.697	0.697
Insurance Reserve	1.259	0.000	1.259	1.259	1.259	1.259
PFI Reserve	3.397	0.295	3.692	3.914	4.032	4.073
Probationer Reserve	4.840	0.000	4.840	4.140	3.440	2.740
Estates Security and Maintenance	2.000	-0.500	1.500	1.000	0.500	0.000
Cost of Change	1.659	-0.900	0.759	0.759	0.759	0.759
Partnerships Reserve	0.685	-0.104	0.581	0.477	0.373	0.269
Commissioners Community Safety Fund	0.265	0.000	0.265	0.265	0.265	0.265
PCC Transition/Legal/Participatory Budgets	0.353	-0.023	0.330	0.330	0.330	0.330
Total	32.235	-3.520	28.715	18.449	14.775	13.512

Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a ddyrannwyd ar gyfer Cyfalaf, Rheoli Risg, Refeniw a Glustnodwyd a'r Gronfa Gyffredinol i'w gweld isod.

	31.3.15		31.3.16	31.3.17	31.3.18	31.3.19
	£m		£m	£m	£m	£m
Capital	19.486	-3.588	15.898	3.373	0.885	0.885
Risk	4.191	0.000	4.191	4.191	4.191	4.191
Revenue	13.199	-1.232	11.967	10.885	9.699	8.436
General	4.189	0.000	4.189	4.189	4.189	4.189
	41.065	-4.820	36.245	22.638	18.964	17.701

9.5 Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf (Cyfalaf) – I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau a seilwaith yr Heddlu er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth a lleihau gwariant refeniw.

Cronfa wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Mawr (Risg)– I'w defnyddio ar gyfer Digwyddiadau Mawr sydd angen mwy o adnoddau na'r hyn sydd ar gael o fewn y gyllideb flynyddol. Yn sgil creu'r gronfa wrth gefn hon, rydym wedi lleihau'r gyllideb Argyfwng, Digwyddiadau Mawr.

Cronfa wrth Gefn, Pensiynau ac Afiechyd (Risg) – Mae'n rhaid i'r Heddlu dalu un swm sydd gyfwerth â ddwywaith cyflog Swyddog bob tro y bydd swyddog yn ymddeol ar sail afiechyd. Mae'r cadw'r gronfa hon wedi'i lleihau angen am y gyllideb o ran refeniw.

Yswiriant (Risg)- Mae hwn yn ymwneud â chynllun Trefniant Municipal Mutual Insurance Limited, a allai arwain at daliad terfynol o £0.432m yn ôl yr amcangyfrif; mewn perthynas â hawliadau anhysbys a allent ddigwydd, a hawliadau anhysbys yn y dyfodol a amlygir gan y Brocer Yswiriant.

Cronfa wrth Gefn Menter Cyllid Preifat (MCP) (Refeniw wedi'i glustnodi) – Mae angen y gronfa hon gan fod yr arian a dderbynnir gan y Llywodraeth ar gyfer MCP yn mynd yn llai bob blwyddyn, bydd y gronfa yn y pen draw yn lleihau dros oes y cytundeb MCP.

Cronfa wrth Gefn Swyddogion ar Brawf (Refeniw wedi'i glustnodi) – I'w defnyddio i ariannu Swyddogion ar Brawf ychwanegol er mwyn llenwi swyddi â Swyddogion hyfforddedig.

Diogelu a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw wedi'i glustnodi) – I ariannu gwaith cynnal a chadw a diogelwch ychwanegol sydd heb ei gynnwys yn y cyllidebau refeniw neu gyfalaf.

Cost Newid (Refeniw wedi'i glustnodi) – Mae angen y buddsoddiad er mwyn hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hirach.

Cronfa wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw wedi'i glustnodi) – Cedwir balansau ar gyfer Partneriaethau penodol a gaiff eu defnyddio neu eu cadw rhag ofn y caiff arian ei dynnu'n ôl gan ychwanegu at gostau ychwanegol.

Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw wedi'i glustnodi) – I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol

Swyddfa'r CHTH a Thrawsnewid i'r CHTH (Refeniw wedi'i glustnodi) – cronfa wrth gefn SCHTh a swm a neilltuwyd ar gyfer unrhyw gostau trawsnewid sy'n gysylltiedig â chylchred etholiadau'r CHTH.

10. Cyfalaf

- 10.1 Mae nifer o brosiectau o fewn y Rhaglen Gyfalaf sydd yn dod i ddiwedd y camau cynllunio a chaniatâd cynllunio. Y prosiectau hyn yw'r ddalfa a phencadlys a'r gorsaf heddlu yng nghanol tref Wrecsam, Gorsaf Heddlu newydd Llandudno, gosod technoleg newydd yn yr ystafell reoli a'r datblygiadau ym maes data symudol. Mae'r gwariant ar gyfer y prosiectau hyn wedi cael ei ailbroffilio, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd pan fydd y gwaith yn dechrau, ond mae'n cymryd amser ac adnoddau i gael prosiectau mor fawr â hyn ar waith.
- 10.2 Mae angen cwblhau prosiectau llai eraill ar yr ystadau yn ogystal ag uwchraddio systemau Busnes a'r Rhaglen flynyddol i adnewyddu Cerbydau.
- 10.3 Mae'r ffigyrau Cyfalaf yn Atodiad C yn dangos y Rhaglen Gyfalaf wreiddiol a'r rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2015-20.
- 10.4 Mae cynlluniau y tu hwnt i 2017-18 wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i'r Rhaglenni Adnewyddu Cerbydau a TG. Cynhelir Adolygiad o'r Ystadau yn 2016-17 ac adolygir y Rhaglen Gyfalaf yng ngoleuni hyn a phan ddaw'r gwaith mawr a gaiff ei wneud dros y ddwy flynedd nesaf i ben.

10.5 Rhaglen Gyfalaf 2015-16 i 2019-20

Gwariant	£m
Ystadau	21.445
Cerbydau ac Offer	8.602
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	9.577
Cyfanswm	<u>39.624</u>
Cyllid	
Grantiau	3.065
Cyfraniad Refeniw	3.674
Cronfeydd wrth gefn	13.960
Derbyniadau Cyfalaf	7.549
Benthyca	<u>4.570</u>
Cyfanswm	39.624

11 Crynodeb

11.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf a'r defnydd o Gronfeydd wrth Gefn dros y 3-5 mlynedd nesaf. Rhagwelir y bydd o leiaf tair blynedd arall o doriadau i grantiau, ond bydd y toriadau yn llai na'r hyn a ddisgwyld yn flaenorol. Mae'r rhain yn dilyn cyfnod o bedair blynedd pan dorrwyd £24.1m mewn arian Grant. Bydd y galw newydd sy'n dod i'r amlwg ym meysydd troseddau seiber a chamfanteisio'n rhywiol ar bobl sy'n agored i niwed yn gofyn am lawer o adnoddau o ran gwaith ataliol ac ymchwil ond mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy. Bydd y pedair blynedd nesaf yn heriol iawn yn ariannol a bydd yn rhaid chwilio am gydbwysedd rhwng yr angen i dorri cyllidebau, buddsoddi mewn rhai meysydd a chyflwyno cynnydd rhesymol yn Nhreth y Cyngor.

Atodiad A

Y Strategaeth Ariannol

Amcanion Ariannol Strategol:

- Blaenoriaethu adnoddau er mwyn cysoni cynlluniau gwario â gweledigaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac amcanion strategol y Prif Gwnstabl a nodwyd yn y Cynllun Plismona a Throsedd
- Cynnal cyllideb wedi'i mantoli a nodi cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth yn ystod cyfnod o doriadau ariannol
- Rhoi gwerth am arian i drethdalwyr lleol
- Arfer cywirdeb, darbodaeth a rheolaeth ariannol gadarn
- Darparu fframwaith cadarn er mwyn cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau
- Rheoli risg, gan gynnwys cadw cronfeydd wrth gefn ar lefel addas a chadw lefel dyledion ar lefel gynaliadwy ar yr un pryd
- Adolygu cyllidebau yn barhaus i sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu ar y prif amcanion

Er mwyn cyflawni'r amcanion strategol, caiff gwaith cynllunio ei wneud yn y meysydd a ganlyn:

Cynllunio Corfforaethol a Busnes

- Cyfuno cynllunio gweithredol ac ariannol er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu cyfeirio tuag at gefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Strategol a chydweddu adnoddau ag amcanion corfforaethol
- Llunio cynllun ariannol ar gyfer y 3 i 5 blynedd nesaf a fydd yn cynnwys prif brosiectau cyfalaf a refeniw yr Heddlu a'r strategaethau TG ac Ystadau ac a fydd yn sicrhau ariannu cynaliadwy yn y tymor byr a'r tymor canolig
- Llunio cyllideb refeniw a chyfalaf fanwl flynyddol sy'n cefnogi'r dull mwyaf effeithiol o adnoddau

Rheoli Risg – Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau

- Cadw cronfeydd wrth gefn a darpariaethau digonol i sicrhau bod y rhaglen bolisi tymor canolig yn gynaliadwy ac y gellir ei chyflenwi
- Anelu at fantoli'r gyllideb refeniw yn y tymor canolig heb orfod dibynnu ar y Gronfa Gyffredinol
- Cynnal 3 lefel o gydnerthedd drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau:
 1. Rheoli'r Gyllideb Flynyddol
 2. Cronfeydd wedi'u clustnodi gan gynnwys y Gronfa wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Mawr
 3. Cronfa Gyffredinol o rhwng 3% a 5% o'r gwariant refeniw net

Rheoli Risg – Fframwaith Rheolaeth Ariannol

- Cynnal fframwaith rheolaeth ariannol sy'n allweddol i gynnal safonau effeithiol o ran gweinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol. Gwneir hyn drwy:
 - Cadw at Reolau a Rheoliadau Statudol
 - Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref
 - Cod Llywodraethu Corfforaethol
 - Nodiadau Polisiâu a Gweithdrefnau
 - Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog
 - Polisi Rheoli'r Trysorlys a Chadw at y Cod Ariannol
 - Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol
 - Rheoli Risg
 - Codau Ymddygiad Proffesiynol
- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau a symud at brosesu electronig llawn
- Cysoni cyfrifoldeb ariannol ar lefel weithredol â'r rheolaeth neu'r dylanwad rheoli priodol
- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir a chyfredol ar gael er mwyn galluogi defnyddwyr i wneud defnydd effeithiol o'r wybodaeth honno wrth wneud penderfyniadau.

Cyllideb 2015-16 i 2019-20										
		Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb		Cyllideb
		Flynyddol		Flynyddol		Flynyddol		Flynyddol		Flynyddol
		2015-16		2016-17		2017-18		2018-19		2019-20
	Gwariant	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
1	Tâl Swyddog Heddlu	71,269	1,648	72,917	1,338	74,255	1,227	75,482	1,235	76,717
2	Tâl Staff yr Heddlu	40,249	651	40,900	807	41,707	649	42,356	654	43,010
3	Goramser Swyddog yr Heddlu	1,983	-150	1,833	0	1,833	0	1,833	0	1,833
4	Goramser Staff yr Heddlu	406	0	406	0	406	0	406	0	406
5	Lwfansau	2,023	-155	1,868	-50	1,818	-50	1,768	-50	1,718
6	Hyfforddiant	669	-3	666	13	679	14	693	14	707
7	Gweithwyr Eraill	671	7	678	13	691	14	705	14	719
8	Taliadau Pensiwn Uniongyrchol	3,102	0	3,102	62	3,164	63	3,227	65	3,292
9	Costau Ynni	1,409	22	1,431	44	1,475	44	1,519	47	1,566
10	Costau Rhedeg Adeiladau	6,645	-380	6,265	134	6,399	137	6,536	140	6,676
11	Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau	857	5	862	17	879	18	897	18	915
12	Costau Rhedeg Cerbyd	2,167	-111	2,056	86	2,142	89	2,231	94	2,325
13	Lwfansau Car a Theithio	721	8	729	14	743	15	758	15	773
14	Uned Awyr	1,394	-99	1,295	0	1,295	0	1,295	0	1,295
15	Offer	688	-33	655	14	669	14	683	14	697
16	Dillad a Gwisgoedd	466	5	471	9	480	10	490	9	499
17	Argraffu a Deunydd Ysgrifennu	437	-3	434	9	443	9	452	10	462
18	TG a Chyfhathrebu	9,215	-12	9,203	0	9,203	0	9,203	0	9,203
19	Cynhaliath	297	-11	286	6	292	6	298	7	305
20	Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill	7,552	79	7,631	236	7,867	90	7,957	90	8,047
21	Fforensig	1,078	-123	955	21	976	22	998	23	1,021
22	Taliadau Dyledion a Chyfraniad at Gyfalaf	1,504	0	1,504	360	1,864	0	1,864	0	1,864
23	Arian At Raid ar gyfer Sefyllfaoedd Arbennig	400	0	400	0	400	0	400	0	400
24	Chwyddiant ac Arian At Raid Cyffredinol	400	0	400	0	400	0	400	0	400
25	Cronfa Diogelwch Cymunedol	1,166	0	1,166	0	1,166	0	1,166	0	1,166
	Gwariant Gros	156,768	1,345	158,113	3,133	161,246	2,371	163,617	2,399	166,016
	Incwm									
26	Secondiadau	-1,300	199	-1,101	0	-1,101	0	-1,101	0	-1,101
27	Llog ar Falansau	-271	0	-271	0	-271	0	-271	0	-271
28	Incwm	-5,397	-270	-5,667	0	-5,667	0	-5,667	0	-5,667
29	Grantiau Penodol	-10,051	-43	-10,094	52	-10,042	53	-9,989	52	-9,937
	Cyfanswm Incwm	-17,019	-114	-17,133	52	-17,081	53	-17,028	52	-16,976
30	Cronfa Wrth Gefn PFI	29	0	295	-73	222	-104	118	-77	41
31	Cronfa Wrth Gefn Ymwybyddiaeth Cyflymder	-208	0	-208	0	-208	0	-208	0	-208
32	Ychwanegol o Gronfeydd Wrth Gefn	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	Gwariant Net	139,836	1,231	141,067	3,112	144,179	2,320	146,499	2,374	148,873
33	Cyfanswm Grantiau	-73,162	417	-72,745	728	-72,017	720	-71,297	713	-70,584
34	Y Praesept	-66,674	-1,648	-68,322	-1,883	-70,205	-1,935	-72,140	-1,989	-74,129
	Cyllid	-139,836	-1,231	-141,067	-1,155	-142,222	-1,215	-143,437	-1,276	-144,713
	Balans Blynyddol	0	0	0	1,957	1,957	1,105	1,105	1,098	1,098
	Cronnus			0		1,957		3,062		4,160

Rhaglen Gyfalaf 2014-15 i 2016-17

Draft Capital Programme 2014-2020								
	2015-16	2015-16	2016-17	2016-17	2017-18	2017-18	2018-19	2019-20
Ref	Revised	Revised	Revised	Revised	Original	Revised	Revised	Revised
Description	Jan-15	Jan-16	Jan-15	Jan-16	Jan-15	Jan-16	Jan-16	Jan-16
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Estate Programme								
1 Retentions	5	5	5	5	5	5	5	5
2 Sustainability Improvements	100	69	100	100	100	100	100	100
3 Menai Bridge Offices	0	0	100	100	0	0	0	0
4 Custody Suites upgrades	0	26	0	0	0	0	0	0
5 Llangefni New Police Station	60	0	0	0	0	0	0	0
6 Chirk Station Relocation	20	0	0	0	0	0	0	0
7 Cefnmawr Station Relocation	50	0	0	0	0	0	0	0
8 Wrexham new Facility	9,083	2,300	5,000	8,622	0	5,000	0	0
9 Saltney Relocation	50	0	0	50	0	0	0	0
10 Buckley Relocation	0	0	55	55	0	0	0	0
11 Deeside Relocation	0	0	250	250	0	0	0	0
12 Flint Relocation	7	43	0	0	0	0	0	0
13 Llangollen Relocation	7	36	0	0	0	0	0	0
14 Llandudno Relocation/New Build	1,000	600	1,000	1,937	0	0	0	0
15 Conwy Relocation	175	0	0	175	0	0	0	0
16 Pwllheli Relocation	902	52	0	0	0	1,000	0	0
17 Tywyn Relocation	140	140	0	0	0	0	0	0
18 Holyhead Port	0	79	0	0	0	0	0	0
19 Firearms Range Training Facilities	0	213	0	0	0	0	0	0
20 Canteen (subj to Busienss Case)	94	0	0	94	0	0	0	0
21 SARC Building	0	115	0	0	0	0	0	0
22 Prestatyn Station demolition	0	64	0	0	0	0	0	0
Total Building Works	11,693	3,742	6,510	11,388	105	6,105	105	105

		2015-16	2015-16	2016-17	2016-17	2017-18	2017-18	2018-19	2019-20
Ref	Description	Revised	Revised	Revised	Revised	Original	Revised	Revised	Revised
		Jan-15	Nov-15	Jan-15	Nov-15	Jan-15	Nov-15	Nov-15	Nov-15
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Vehicles and Other Equipment									
23	Vehicle Purchase Replacement Programme	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500
24	PSU Vehicules (Revenue Stream replacemnt programme)	0	624	0	0	0	0	0	0
25	PIV	0	400	0	0	0	0	0	0
26	ANPR	0	78	0	0	0	0	0	0
Total Vehicles and Other Equipment		1,500	2,602	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500	1,500
Information Technology and Communication Equipment									
27	Desk Top Replacement (Replacement Programme)	300	300	300	300	300	300	300	300
28	Network Installation (Replacement Programme)	1,400	400	0	1,000	500	0	0	800
29	Control Room Technology Replacement	0	0		2,115	0	0	0	0
30	CAD Upgrade and Hardware (Replacement Programme)	500	0	0	0	0	0	0	0
31	RMS Upgrade	0	0	0	0	0	450	0	0
32	Business Systems	345	0	0	345	420	0	0	420
33	Criminal Justice Digital Project	0	377	0	0	0	0	0	0
34	Interview Rooms Security and DDA	0	300	0	0	0	0	0	0
35	Call centre management system	650	0	0	0	0	0	0	0
36	ICCS replacement (part of Control Room Futures)	550	0	0	0	0	0	0	0
37	Mobile data	800	400	0	400	0	0	0	0
38	Secure System Replacement	0	70	0	0	0	0	0	0
39	Airwave Replacement	0	0	0	0	0	0	0	1,000
Total Information Technology and Communication		4,545	1,847	300	4,160	1,220	750	300	2,520
Total Capital Expenditure		17,738	8,191	8,310	17,048	2,825	8,355	1,905	4,125
		2015-16	2015-16	2016-17	2016-17	2017-18	2017-18	2018-19	2019-20
Ref	Description	Revised	Revised	Revised	Revised	Original	Revised	Revised	Revised
		Jan-15	Nov-15	Jan-15	Nov-15	Jan-15	Nov-15	Nov-15	Nov-15
		£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Funding of Capital Programme									
40	Home Office General Capital Grants	1,100	901	1,100	541	1,100	541	541	541
41	Revenue Contribution	410	994	310	670	310	670	670	670
42	Earmarked Reserves	9,326	2,288	1,356	9,184	0	2,488	0	0
43	Capital Receipts	3,218	1,300	2,244	5,353	195	153	0	0
44	Borrowing for Estates and other capital	1,139	2,008	3,000	0	0	3,753	394	1,394
45	Borrowing for Replacement Programmes	2,545	700	300	1,300	1,220	750	300	1,520
Total Funding		17,738	8,191	8,310	17,048	2,825	8,355	1,905	4,125



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Swyddog Cyswllt:	Dawn Hughes
	Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Bodlondeb Conwy LL28 5NF
E-bost:	dawn.hughes@conwy.gov.uk
Rhif Ffôn:	01492 576061

Dyddiad	Testun	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
25 Mawrth 2016	Y diweddaraf am sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dwyn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyfrif yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â Chynllun yr Heddlu a Throsedd	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
25 Mawrth 2015	Amserlen Gyfarfod ar gyfer 2016/17	Awdurdod Cynnal
Eitemau yn y dyfodol		
I'w gadarnhau	Diweddariad ar newidiadau i'r Fformiwla Cyllido Derbyn diweddariad ar yr adolygiad o fformiwla cyllido yr heddlu.	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
I'w gadarnhau	Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd Sicrhau y bydd Aelodau Etholedig y Panel, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol Gogledd Cymru. Gan gynnwys methodoleg ar gyfer penodi aelodau etholedig i Banel yr Heddlu a Throsedd.	Awdurdod Cynnal
I'w gadarnhau	Adolygu Cylch Gorchwyl Panel yr Heddlu a Throsedd Adolygu'r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.	Awdurdod Cynnal
I'w gadarnhau	Dyfodol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd